Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD GWENER, 2AIL HYDREF, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni***


Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

### Aelodau a phleidlais

### Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |
| Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Hugh Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

### Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

| | |
|---|---|
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |
| Yr Athro Joe Yates | Prifysgol Wrecsam |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Aled Jones-Griffith | Grŵp Llandrillo Menai |
| David Roberts | Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |
| Edgar Wyn Owen | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Dave Penrith | Ymgynghorydd Anrweithredol |

### Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dafydd Gibabrd | Cyngor Gwynedd |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Helen White | Cyngor Sir Ddinbych |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Alwyn Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

### Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y CBC |
| Mark Watkins | Swyddog Monitro |
| Helen Edwards | Dirprwy Monitro |
| Dewi Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Hedd Vaughan-Evans | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026-27.

**2. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 17

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2026 fel rhai cywir.

**6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 1** 18 - 48

Hedd Vaughan-Evans (Cyfarwyddwr Portffolio) I gyflwyno'r adroddiad.

**7. SEFYLLFA REFENIW A CHYFALAF 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD GORFFENNAF 2026** 49 - 64

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid a Swyddig Cyllid Statudol CBC) a Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid) I gyflwyno'r adroddiad.

**8. PROSIECT PORTH Y PORTHLADD RHYDD, LLANGEFNI - CYTUNDEB CYLLIDO GRANT** 65 - 68

David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) I gyflwyno'r adroddiad.

**9. CYNLLUNIAU DEFNYDDIO PROSIECT LPWAN** 69 - 77

Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol) I gyflwyno'r adroddiad.

**10. RHAGLEN MABWYSIADU YNNI ADNEWYDDADWY YN Y CARTREF (HARP)** 78 - 82

Meghan Davies (Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net) i gyflwyno'r adroddiad.

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2025-26** 83 - 112

Cath Morris-Roberts (Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol Dros Dro) i gyflwyno’r adroddiad.

**12. Y GRONFA DWF LLEOL YNG NGOGLEDD CYMRU** 113 - 117

Alwen Williams (Prif Weithredwr) ac Iain Taylor (Rheolwr Rhaglen) I gyflwyno’r adroddiad.

**13. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM - CYMERADWYAETHAU PROSIECT A DYRANIADAU** 118 - 128

Alwen Williams (Prif Weithredwr), Iain Taylor (Cynrychiolydd AMION Consulting) a Milly Cross (Rheolwr Rhaglen) i gyflwyno’r adroddiad.

Mae Atodiadau 1-4 yn eithriedig yn unol â Paragradd 14 o Ran 4 o Atodlen 12A I Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol a busnes sefydliadau adnabyddadwy, gan gynnwys gwybodaeth ariannol fanwl am brosiectau, gofynion cyllido a rhagdybiaethau, trefniadau masnachol a chyflawni, risgiau prosiectau, gofynion buddsoddi yn y dyfodol a gwybodaeth fasnachol sensitif arall a ddarperir at ddibenion arfarnu a chyllido.

**14. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Er bod diddordeb y cyhoedd mewn tryloywder ac atebolrwydd, mae hyn yn cael ei orbwyso ar hyn o bryd gan yr angen i ddiogelu gwybodaeth fasnachol sensitif o ystyried y byddai datgelu yn debygol o ragfarnu trafodaethau parhaus a gallu'r awdurdod i sicrhau'r gwerth gorau a diogelu'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

**15. STRATEGAETH AR GYFER GWEDDILL CYLLID Y CYNLLUN TWF**

Hedd Vaughan-Evans (Cyfarwyddwr Portofolio) I gyflwyno’r adroddiad.

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**
**17/07/2026**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:**

Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint) a Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Aelodau Cyfetholedig:** Chris Drew (Prifysgol Bangor), Laura Gaugh (Prifysgol Wrecsam), David Roberts (Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau), Ifor Glyn Lloyd (Parc Cenedlaethol Eryri) a Dave Penrith (Ymgynghorydd Anweithredol),

**Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol:** Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych) ac Andrew Harradine (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr), Hedd Vaughan-Evans (Cyfarwyddwr Portffolio), Mark Watkins (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Adran 151), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd), Elliw Alaw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Catherine Morris-Roberts (Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol), Angharad Evans (Rheolwr Prosiect Sgiliau a Chyflogaeth), Iain Taylor (Amion), Nia Medi Williams (Rheolwr Gweithrediadau ac Adnoddau) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Sylwedyddion**: Wendy Boddington a Bryn Richards (Llywodraeth Cymru)

**Eraill a wahoddwyd:**

**Eitem 9:** Dylan Griffith (Cyngor Gwynedd)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Mark Pritchard yn Gadeirydd ar gyfer 2026/27.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Jason McLellan yn Is-gadeirydd ar gyfer 2026/27.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Chris Drew yn dirprwyo.
- Yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam) gyda Laura Gaugh yn dirprwyo.
- Yana Williams (Coleg Cambria)
- Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai)
- Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint)
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo

- Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gydag Andrew Harradine yn dirprwyo.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) ar gyfer Eitem 7. Nodwyd and oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) ar gyfer Eitem 11, gan ei fod yn aelod o Fwrdd 'Menter Môn' yn rhinwedd ei rôl fel Arweinydd y Cyngor. Nodwyd nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2026 fel rhai cywir.

**7. PROSIECT PORTH Y PORTHLADD RHYDD – CAIS I YMESTYN Y CYFNOD DILYSRWYDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo.

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwyo'r cais i ymestyn y cyfnod dilysrwydd i gwblhau'r Cytundeb Cyllido Grant o dri mis hyd at 1af o Hydref 2026.**

**Cadarnhau bod y Cyfarwyddwr Portffolio wedi'i awdurdodi i gymryd yr holl gamau gweithredol angenrheidiol i fwrw ymlaen â'r Cytundeb Cyllido Grant a'i gwblhau o fewn y cyfnod dilysrwydd estynedig, yn amodol ar ofynion cyfreithiol, ariannol, caffael a llywodraethu arferol.**

**Cadarnhau bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys tan 1af Hydref 2026 ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i Gytundeb Cyllido Grant wedi'i lofnodi erbyn y dyddiad hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd ac ail gyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i ymestyn y dyddiad adolygu ar gyfer y Cytundeb Cyllido Grant o dri mis oherwydd y rhesymau a nodir yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd bod y prosiect hwn wedi cael ei gymeradwyo gan yr Is-bwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 03 Hydref 2025, gan gymeradwyo cyfnod dilysu o 6 mis ar gyfer trafod a chyflawni cytundeb ariannu grant ar gyfer y prosiect.

Cydnabuwyd nad oedd modd cyflawni'r gofynion hynny o fewn yr amserlen a ddarparwyd gan yr Is-bwyllgor, ac felly fy ail-gyflwynwyd yr eitem yng Ngwanwyn 2026 er mwyn derbyn

3 mis ychwanegol i gyflawni'r trafodaethau a derbyn cytundeb ariannu grant. Hyderwyd bod modd cyflawni'r trafodaethau o fewn 3 mis, ond cadarnhawyd nad yw'r trafodaethau wedi cael eu cwblhau ar y prosiect hwn. Yn debyg, eglurwyd bod trafodaethau yn mynd rhagddo ar brosiect Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn, a bod trafodaethau bellach wedi eu cyflawni gyda'r Awdurdod Lleol ar y prosiect hwnnw.

Adroddwyd bod y prosiect Porth y Porthladd Rhydd bellach mewn proses caffael, gyda'r proses tendro yn mynd rhagddo tan 7 Awst. Nodwyd bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sgorio'r tendrau cyn apwyntio'r cwmni llwyddiannus cyn diwedd y mis. Ymhelaethwyd y gobeithir cwblhau trafodaethau gyda'r awdurdod lleol ym mis Medi 2026, er mwyn i'r gwaith gychwyn ym mis Hydref.

Gofynnwyd i ymestyn y cyfnod dilysu am 3 mis er mwyn caniatáu i'r amserlen hwn gymryd lle, ac i'r prosiect fynd yn ei flaen.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Ystyriwyd nad yw estyniad o dair mis yn gyfnod sylweddol o amser. Trafodwyd yr angen i sicrhau bod unrhyw estyniad yn ddigonol fel nad oes angen yn codi i ddychwelyd at yr Is-bwyllgor am estyniad dilynol. Mewn ymateb i'r sylwadau, pwysleisiodd Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo bod gwersi wedi eu dysgu wrth gynnal trafodaethau ar brosiect Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn I arbed amser ar drafodaethau. Sicrhawyd bydd hyn yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer y prosiect hwn, gan ddatgan hyder y bydd y prosiect yn datblygu'n amserol os caniateir yr estyniad.

Cadarnhawyd y dymunir gweld y prosiect hwn yn llwyddo, gan obeithio bydd y trafodaethau yn dwyn ffrwyth yn amserol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## 8. CYNLLUN SGILIAU A CHYFLOGAETH GOGLEDD CYMRU 2026-2028

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol.

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwyo Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru a'r blaenoriaethau fel y'u nodir yn y cynllun.**

**Gofyn i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gyflwyno adroddiad diweddariad ymhen 12 mis.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Adrodd i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar Gynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru a cheisio cymeradwyaeth o'i flaenoriaethau er mwyn cefnogi'r Gwaith o gyflawni yn rhanbarthol.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod Cynlluniau Sgiliau a Chyflogaeth yn gweithredu ar gylchred 3 mlynedd o hyd, gan nodi bod y cylchred diweddaraf wedi diweddu ar ddechrau'r flwyddyn hon. Nodwyd nad oedd arweiniad clir wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn y misoedd diwethaf gan fod paratoadau yn cael ei wneud ar gyfer Etholiad Senedd Cymru ym mis Mai.

Adroddwyd bod Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi penderfynu parhau gyda Chynllun newydd am y tair blynedd nesaf er mwyn sicrhau datblygiad a pharhad momentwm, gan obeithio bydd y Llywodraeth newydd yn ei fabwysiadu maes o law. Cydnabuwyd y posibilrwydd bydd man addasiadau yn cael eu gwneud wrth i'r Llywodraeth ei ystyried, ond hyderwyd bod y Cynllun yn ddigon cadarn i ymdopi gyda hynny.

Tynnwyd sylw bod Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru yn unigryw i'r tri chynllun arall a welir yng Nghymru, gan ei fod wedi ei glymu yn agos gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Hyderwyd bod hyn yn gryfder gan fod modd darparu cefnogaeth ar lefel rhanbarthol.

Adroddwyd bod oddeutu 30 o bartneriaid yn rhan o'r Bwrdd, gan gynnwys colegau a phrifysgolion, gan nodi bod eu presenoldeb ar y Bwrdd yn eu cynorthwyo gyda'u cynlluniau unigol. Mynegwyd balchder bod y Bwrdd wedi ymgysylltu gyda dros 350 o gyflogwyr ar draws y naw sector blaenoriaeth, drwy arolygon, rhwydweithiau cyflogwyr a chyfarfodydd, er mwyn gallu datblygu'r Cynllun.

Cadarnhawyd bod tair thema yn parhau o'r Cynllun blaenorol, er mwyn sicrhau parhad yng ngwaith da'r Bwrdd a'r gefnogaeth a gynigir o fewn y rhanbarth. Manylwyd bod y rhain yn cynnwys darparu cefnogaeth i gyflogwyr, unigolion ac addysgu sut y darperir cefnogaeth a gwneud y cysylltiadau rhwng unigolion a chyflogwyr.

Eglurwyd bod y cynllun yn cynnwys mewnwelediadau cyflogwyr am yr anghenion recriwtio a'r sgiliau angenrheidiol o fewn y sectorau yn ogystal â gwybodaeth am y rhwystrau mae unigolion yn eu hwynebu. Ymhelaethwyd bod y cynllun yn rhoi trosolwg o heriau sylweddol a chyfleoedd sydd ar gael gyda phrosiectau buddsoddi mawr Tynnwyd sylw bod nifer o brosiectau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi gwneud defnydd o'r Cynllun yn y gorffennol. Nodwyd bod y cynllun yn cyfarch y ffaith bod y farchnad lafur yn esblygu megis Deallusrwydd Artiffisial, Sero Net, a sut all cyflogwyr wneud y defnydd gorau o'r materion hyn.

Amlygwyd bod trafferthion cysylltedd economaidd yn effeithiol ar unigolion o fewn y rhanbarth, gan gydnabod nad yw 15.1% o bobl 16-24 oed yng ngogledd Cymru mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant - y gyfradd uchaf yng Nghymru. Nodwyd mai iechyd meddwl yw'r ffactor sy'n cyfrannu mwyaf at achosion economaidd anweithredol ar hyn o bryd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd i'r Bwrdd am eu gwaith o ddatblygu sgiliau ar draws y rhanbarth.

Croesawyd y Cynllun newydd gan ddatgan pryder am yr ystadegau brawychus nad yw 15.1% o bobl rhwng 16 a 24 oed mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant yn y rhanbarth. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd i ymchwilio i hyn ymhellach er mwyn cynorthwyo'r unigolion hynny. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Cadeirydd y Bwrdd y dymuna gweld gogledd Cymru gyda'r cyfraddau isaf ar y mater hwn, gan bwysleisio ei fod yn gyfrifoldeb i'r holl bartneriaid er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn gwella.

Cysidrwyd bod angen gwaith ehangach ar y cyfleoedd prentisiaethau sydd ar gael yn y rhanbarth. Cydnabuwyd nad oes modd i'r Bwrdd greu prentisiaethau, ond ystyriwyd ei allu i roi pwysau ar y Llywodraeth i ystyried y system prentisiaethau, cymharu gydag awdurdodau eraill, er mwyn cydnabod prentisiaethau fel modd o darparu sgiliau i weithwyr. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Cadeirydd y Bwrdd bod pwysau parhaus yn cael ei roi ar y Llywodraeth i fanteisio ar brentisiaethau a darparu cyllidebau ar eu cyfer, gan

gadarnhau bod anogaeth a gwybodaeth yn cael ei rannu gyda chyflogwyr yn gyson fel rhan o weithrediad y Bwrdd, ar brentisiaethau.

Teimlwyd nas oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar yr angen gwirioneddol ar draws y rhanbarth i ddenu gweithwyr o fewn y maes gofal cymdeithasol ac iechyd. Pwysleisiwyd bod heriau recriwtio o fewn y maes gofal yn her eithriadol i'r awdurdodau lleol, a dylid amlygu hynny yn fanwl o fewn y Cynllun. Dymunwyd gweld y maes hwn yn derbyn mwy o flaenoriaeth o fewn y Cynllun er mwyn denu pobl i mewn i swydd yn y maes gofal yn ogystal â chanfod dulliau i ddatblygu gyrfa. Cytunwyd gyda'r sylwadau hyn gan gydnabod bod angen amlygu'r sefyllfa o fewn y Cynllun.

Amlygwyd bod bylchau mewn sgiliau ac arbenigedd i'w weld o fewn yr awdurdodau lleol eu hunain, fel prif gyflogwyr o fewn ardaloedd y rhanbarth. Cydnabuwyd nad yw hyn yn berthnasol i'r mwyafrif o weithwyr ond ei fod yn cael effaith ar feysydd arbenigol megis cynllunio a chyfreithiol. Dymunwyd gweld hyn yn cael ei adlewyrchu yn ehangach o fewn y Cynllun.

Tynnwyd sylw bod economi wledig o fewn y rhanbarth yn ddibynnol ar fusnesau bychan, yn hytrach na chyflogwyr mawr sydd yn cyflogi nifer fawr o bobl. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o sicrhau bod y cwmnïau hynny yn elwa ar y Cynllun, drwy nodi bod sgiliau yn cael eu datblygu er mwyn i'r busnesau ffynnu. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhawyd bod llais busnesau bach yn cael ei glywed, gan fod Ffederasiwn Busnesau Bychan (FSB) yn bartner gwerthfawr. Nodwyd hefyd bod busnesau o bob maint wedi cael mewnbwn i'r cynllun wrth i'r Bwrdd gynnal trafodaethau ac arolygon. Cadarnhawyd bydd y cydweithio hyn yn parhau dros gyfnod y cynllun.

Yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth, ystyriwyd gofyn i'r Bwrdd am ddiweddariad ymhen 12 mis ar ddatblygiad y Cynllun.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## 9. CRONFA DWF LLEOL YNG NGOGLEDD CYMRU – BLAEN GYNLLUNIO AR GYFER GWELL CYDWEITHREDU RHANBARTHOL O 2027/28

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**PENDERFYNIAD**

1. **Nodi'r diweddariad ar y trefniadau pontio ar gyfer y Gronfa Dwr Lleol ers yr adroddiadau perthnasol gael eu cyflwyno i'r CBC ym mis Mawrth a Mehefin.**

2. **Nodi bod y Cynllun Pontio Blwyddyn 1 (2026-27) ar gyfer y Gronfa Dwf Lleol wedi ei gyflwyno ar y 9fed o Fehefin i Lywodraeth Cymru gan Gyngor Gwynedd fel y corff atebol arweiniol ar gyfer Blwyddyn 1, a bod y cynllun yn nodi'r dull o gynnal parhad o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) wrth baratoi'r rhanbarth ar gyfer model cyflawni gwbl ranbarthol o dan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ym mlynyddoedd 2 a 3.**

3. **Cymeradwyo'r rhaglen waith arfaethedig a'r cerrig milltir sydd eu hangen cyn cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ym mis Hydref 2026, gan gydnabod bod rhaid i'r gwaith paratoi ddechrau ar unwaith os yw'r CBC am fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb am y Gronfa Dwf Lleol o fis Ebrill 2027 ymlaen, yn ddarostyngedig i dderbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru.**

4. **Awdurdodi'r swyddogion i symud ymlaen gyda'r gofynion angenrheidiol gan gynnwys cynllunio, ymgysylltu, comisiynu ac adeiladu capasiti dros yr Haf, gan ddefnyddio'r cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r paratoadau ar gyfer cyflawni'r Gronfa Dwf Lleol o 2027/28 ymlaen, yn ddarostyngedig i dderbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I ddiweddaru'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar y Gronfa Dwf Lleol ac i gael cefnogaeth yr Is-bwyllgor i fwrw ymlaen gyda'r Gwaith sydd ei angen dros yr haf i gychwyn cynllunio i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru am fwy o gydweithredu rhanbarthol a chydlynu'r gronfa o 1af Ebrill 2027.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd mai pwrpas yr adroddiad yw sicrhau bod gogledd Cymru yn barod ar gyfer trefniadau cyfnewid y Gronfa Dwf Lleol, a'r disgwyliadau mae Llywodraeth Cymru wedi ei osod allan ar gyfer Ebrill 2027 ymlaen.

Nodwyd bod yr adroddiad yn darparu diweddariad i Aelodau ar ddatblygiadau, tra hefyd yn chwilio am gymeradwyaeth i raglen waith paratoadol wrth blaen gynllunio i'r newid hwn, a fyddai angen ei weithredu yn ystod haf 2026.

Atgoffwyd bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) bellach yn cael ei ddisodli gan y Gronfa Dwf Lleol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod pwyslais yn cael ei roi ar dyfiant cynhyrchiant, cydbwyso anghydbwysedd economaidd tra hefyd yn amlygu angen am gyllideb cyfalaf mwy sylweddol.

Adroddwyd bod y Gronfa Twf Lleol yn gweithredu ar dair blaenoriaeth, sef:

- Cefnogi busnesau cynhyrchiol a chystadleuol
- Cynyddu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth
- Gwella isadeiledd rhanbarthol

Cadarnhawyd bod blwyddyn ariannol 2026/27 yn cael ei hadnabod gan Lywodraeth Cymru fel blwyddyn drosiannol, gan nodi bod trefniadau presennol ar gyfer SPF yn parhau i fod yn weithredol. Amlygwyd mai Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod arweiniol ar y mater ar gyfer gogledd Cymru.

Datganwyd mai Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer y Gronfa, a'u bod eisoes wedi derbyn llythyr cynnig grant ar gyfer 2026/27 sy'n ei wneud yn ofynnol ar weithrediad Cynllun Pontio trosiannol pragmataidd Atgoffwyd bod Cynllun Datblygu Rhanbarthol terfynol wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 9 Mehefin 2026, fel modd o rannu gwybodaeth gyda'r Llywodraeth ar weinyddiaeth y Cynllun yn ei flwyddyn gyntaf..

Nodwyd bod yr awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu'r cynllun ar gyfer ei flwyddyn gyntaf. Ymhelaethwyd eu bod yn gwneud hynny drwy ystyried blaenoriaethau'r Cynllun yn ogystal ag anghenion lleol.

Adroddwyd bod canllawiau diweddar a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau'r disgwyliad y bydd y cyfrifoldeb am gynllunio strategol, blaenoriaethu a goruchwyliaeth o'r Gronfa yn symud i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o Ebrill 2027 ymlaen (yn hytrach na'r Awdurdodau Lleol). Pwysleisiwyd bod y rhanbarth hwn wedi datgan gwrthwynebiadau i'r penderfyniad hwn gan ei fod yn effeithio ar y gallu i wneud penderfyniadau yn lleol. Sicrhawyd bod swyddogion wedi gwneud cais am gadarnhad ffurfiol o safbwynt

Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, gan adrodd bod llythyr gan Weinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni ar y ffordd er mwyn darparu diweddariad. Pwysleisiwyd bydd y llythyr hwn yn cael ei rannu gyda holl arweinyddion llywodraeth leol yng Nghymru.

Soniwyd bod gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn glir o fewn y canllawiau, gan egluro bod disgwyliad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig baratoi cynllun twf rhanbarthol am gyfnod o 10 mlynedd, er mwyn darparu fframwaith strategol ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol. Adroddwyd bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi derbyn arian grant gwerth £200,000 er mwyn gweithredu ar y cais hwn, gan nodi y disgwylir drafft o'r cynllun erbyn diwedd Medi 2026 a chynllun terfynol erbyn diwedd Tachwedd 2026.

Pwysleisiwyd nad oes bwriad i ddisodli blaenoriaethau lleol, ond i ddarparu mecanwaith ble gallent fod wedi ei alinio gyda blaenoriaethau rhanbarthol er mwyn uchafu cyfleoedd buddsoddi.

Nodwyd bod y rhaglen waith ddrafft wedi cael ei gynnwys o fewn yr adroddiad, gan gynnwys ystyried tystiolaeth a strategaethau presennol, adnewyddu'r waelodlin economaidd bresennol, datblygu gweledigaeth twf hir dymor, ffurfio trefniadau llywodraethu yn ogystal â chynnal gwaith ymgysylltu allweddol gydag awdurdodau lleol a phartneriaid rhanbarthol. Tynnwyd sylw at y cerrig filltir sydd wedi cael ei nodi gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun hwn, a phwysleisio bod methiant i wneud hynny yn gallu arwain at risgiau wrth ymgeisio am gyllidebau yn y dyfodol, a gall y Llywodraeth benderfynu sut i ddyrannu unrhyw arian yn ganolog. Mynegwyd rhwystredigaeth bod yr amserlen a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn heriol iawn, gyda swm sylweddol o waith angen ei gyflawni er mwyn ei gyflwyno ar amser. Amlygwyd bod y cerrig filltir hynny fel a ganlyn:

- 30 Gorffennaf 2026 - Cyflwyno adroddiad cynnydd i Lywodraeth Cymru
- 30 Medi 2026- Cyflwyno Cynllun Twf Rhanbarthol drafft i Lywodraeth Cymru
- 2 Hydref 2026 - Cyflwyno'r Cynllun Twf Rhanbarthol drafft i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd er ystyriaeth
- 30 Tachwedd 2026 - Cyflwyno'r Cynllun Twf Rhanbarthol Terfynol i Lywodraeth Cymru

Ystyriwyd mai'r blaenoriaethau cychwynnol yw ymgysylltu gyda'r awdurdodau lleol a phartneriaid yn ogystal â dechrau ar y gwaith o sefydlu trefniadau llywodraethu.

Amlygwyd bod yr adroddiad yn nodi'r angen i gychwyn ar y gwaith paratoadol tra mae swyddogion yn parhau i geisio eglurder ar drefniadau hir dymor y Gronfa, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oblygiadau ariannol negyddol yn cael effaith ar y rhanbarth.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Ystyriwyd ei fod yn hanfodol bod y Cyd-bwyllgor yn cyfarch amserlen dynn Llywodraeth er mwyn sicrhau nad oes penderfyniadau a effeithir y rhanbarth yn cael eu penderfynu yn ganolog, gan ystyried os oes capasiti gan swyddogion i wneud hynny yn amserol. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhad y Prif Weithredwr bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllideb grant gwerth £200,000 er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith a'r capasiti i'w gyflawni, yn ogystal â chyhoeddi arweiniad ysgrifenedig ar y Gronfa. Cydnabuwyd nad oes digon o gapasiti ar hyn o bryd i gyflawni'r gwaith, ond bod cynllun ar waith er mwyn sicrhau bod adnodd digonol mewn lle. Nodwyd bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyfarch yr amserlen yn heriol, gan nodi bod modd cyflwyno cynllun sydd yn manylu ar y Gronfa yn hytrach na'r cynllun twf 10 mlynedd yn ei gyfanrwydd, yn dderbyniol. Fodd bynnag, ystyriwyd ei fod yn amserol i ddatblygu cynllun 10 mlynedd newydd gan fydd hynny

yn gyfle i ddatblygu gweledigaeth economaidd hyd at ddiwedd cyfnod y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi yn 2036. Hyderwyd bydd modd cyfarch y targedau amser ar y telerau hyn.

Mynegwyd rhwystredigaeth Aelodau bod rhai materion ynghlwm a'r Cynllun yn aneglur, ac nid yw eglurder ffurfiol wedi ei ddarparu gan y Gweinidog Cabinet hyd yma. Pwysleisiwyd bod hyn yn ei wneud yn heriol i ddod i benderfyniad ar y mater.

Datganwyd siomedigaeth bod criteria ar gyfer y Gronfa yn dra wahanol i'r SPF, a'i fod yn addasu o fod yn gyllideb refeniw i gyllideb cyfalaf. Rhannwyd enghreifftiau o wasanaethau allweddol sydd wedi cael eu hariannu gan SPF a'i gyllideb flaenorol, ond sydd bellach yn anghymwys i'w gyllido o'r Gronfa.

Trafodwyd pryder y gall y Gronfa gael ei golli o fewn gwaith ehangach y Cyd-bwyllgor, petai'r Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am ei weinyddiaeth a'i llywodraethant o Ebrill 2027 ymlaen. Ystyriwyd yr angen am sicrwydd bydd y Gronfa yn cael ei weinyddu ar draws y chwe awdurdod lleol o fewn y rhanbarth, gan beri gofid gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych, fel safleoedd yng nghanol y rhanbarth, gael ei anghofio dros brosiectau yn ardaloedd gorllewinol a dwyreiniol y rhanbarth. Gofynnwyd a byddai'r gyllideb o fewn y Gronfa yn parhau i gael ei ddyrannu i bob Sir, fel y gwnaed wrth weinyddu SPF.

Ystyriwyd bod gweinyddiaeth SPF a blwyddyn gyntaf y Gronfa wedi bod yn effeithiol iawn. Derbyniwyd sylwadau y byddai'n fuddiol i'r trefniadau aros yn y system gyfredol gan fod sicrwydd eu bod yn gweithio.

Gofynnwyd faint byddai'r gost i'r Cyd-bwyllgor weinyddu'r Gronfa, o'i gymharu â faint mae'n costio i Gyngor Gwynedd wneud hynny ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd ei fod yn angenrheidiol nad yw'r gost hwn yn sylweddol uwch i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o arian cyhoeddus. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod trefniadau costau gweinyddu'r Gronfa yn aros yr un fath a'r hyn a oedd yn weithredol ar gyfer SPF. Manylwyd y golyga hyn bod 4% o'r gyllideb ar gael ar gyfer costau gweinyddu'r Gronfa - pe bai'n cael ei ddefnyddio gan Gyngor Gwynedd neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Eglurwyd bod yr arian grant o £200,000 a gyfeiriwyd ato ddim ond ar gael ar gyfer y flwyddyn drosiannol (2025/26).

Nodwyd sylwadau bod y newid hwn i weinyddiaeth ranbarthol y Gronfa yn symud penderfyniadau democratiaeth i ffwrdd o drigolion y rhanbarth, gan nad ydynt yn cael eu penderfynu yn lleol.

Derbyniwyd diweddariad gan yr Aelod dros Gyngor Sir Ynys Môn, a oedd yn nodi ei bod wedi cael trafodaeth gyda'r Gweinidog Cabinet perthnasol yn ddiweddar, ble cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i drefniadau blaenorol ynghylch y Cynllun. Mynegwyd siomedigaeth bod y Llywodraeth yn parhau gyda'r safbwynt hyn yn hytrach nag ymateb yn effeithiol i bryderon y rhanbarth, a phryderwyd bod angen cymeradwyo'r adroddiad hwn er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cyrraedd y rhanbarth, neu beri risg na fyddai'n cael ei ddyrannu'n effeithlon. Pwysleisiwyd byddai peidio derbyn yr arian yn heriol iawn, ac fe fyddai'n llai heriol i newid trefniadau presennol er mwyn gweithredu'n rhanbarthol ar weithrediad y Gronfa. Mewn ymateb i'r sylwadau, ystyriodd y Swyddog Monitro os byddai'r Aelodau yn dymuno addasu'r Penderfyniad a Geisir fel bod modd cymeradwyo'r adroddiad os yw'r cadarnhad ffurfiol gan y Gweinidog Cabinet yn dod i law, a'i fod yn disgyn os nad yw'r cadarnhad hwnnw yn cyrraedd, petai'r Aelodau o blaid cymeradwyo'r adroddiad.

Gofynnwyd a oes asesiadau, gwerthuso neu fonitro wedi cael ei gwblhau, wrth i swyddogion fynd ati i ddatblygu cynllun deg mlynedd newydd. Ystyriwyd hefyd, os oedd y weledigaeth twf a nodwyd o fewn y cynllun gwreiddiol yn 2016 wedi ei gyrraedd. Mewn ymateb,

cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y weledigaeth a nodwyd yn 2016 yn uniongyrchol berthnasol i'r Cynllun Twf gan mai dim ond y Cynllun Twf oedd yn weithredol bryd hynny. Ychwanegwyd bod cynnydd y Cynllun hwnnw yn cael ei adrodd i'r Is-bwyllgor yn rheolaidd, gan bwysleisio bod y Cynllun yn ymateb i amcanion y weledigaeth a nodwyd yn 2016. Amlygwyd bod yr economi wedi addasu yn sylweddol o fewn y ddegawd ddiwethaf ac mae'n bwysig adnewyddu'r weledigaeth fel rhanbarth er mwyn sicrhau bod heriau cyfredol yn derbyn sylw. Cadarnhawyd bydd cynnal gweithgareddau gwerthuso yn rhan o ddatblygu cynllun deg mlynedd newydd. Yn yr un modd, ystyriwyd ei fod yn angenrheidiol i gael mewnbwn gan yr awdurdodau lleol fel rhan o'r broses hwnnw.

Ystyriwyd y posibilrwydd o drefnu cyfarfod i'r Aelodau drafod y mater hwn ymhellach yn dilyn y penderfyniad hwn. Cysidrwyd byddai cynnal cyfarfod o'r fath yn caniatáu ystyriaeth i weledigaeth o sut mae'r Gronfa yn gallu bod o'r buddiant fwyaf i drigolion y chwe awdurdod, ac yn tawelu meddyliau'r aelodau tra mae'r sefyllfa yn parhau'n annelwig gan Lywodraeth Cymru. Nododd y Cadeirydd ei gefnogaeth i'r cyfarfod hwn, gan annog Aelodau i ddod i benderfyniad ar yr adroddiad er mwyn sicrhau na fydd yr amserlen yn llithro ar ddatblygiad y Gronfa.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bod y penderfyniadau a ystyriwyd o fewn yr adroddiadau yn caniatáu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig baratoi at y newid hwn, canfod y ffyrdd gorau y gallai gydweithio gyda'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod yr arian yn effeithio'n gadarnhaol ar gymunedau. Tynnwyd sylw nad dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru addasu dull ariannu yn y modd hwn, gan fod y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi bod yn cydweithio gyda'r awdurdodau lleol perthnasol ar brosiect Parth Buddsoddi Fflint a Wrecsam ers nifer o flynyddoedd ac wedi delio gyda'r un ystyriaethau a heriau wrth sefydlu'r prosiect hwnnw. Pwysleisiwyd bod meithrin perthynas glos gyda'r awdurdodau hynny wedi caniatáu i benderfyniadau aros yn lleol o fewn y Siroedd, a gobeithir efelychu'r llwyddiant hwn gyda'r Gronfa er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weinyddu ar strwythur sydd yn gweithio'n effeithiol i bawb.

Cynhaliwyd pleidlais ar yr adroddiad, ble roedd 5 aelod o blaid ac 1 yn atal eu pleidlais.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Cynigodd y Cadeirydd y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Er bod diddordeb y cyhoedd mewn tryloywder ac atebolrwydd, mae hyn yn cael ei orbwyso ar hyn o bryd gan yr angen i ddiogelu gwybodaeth fasnachol sensitif o ystyried y byddai datgelu yn debygol o ragfarnu trafodaethau parhaus a gallu'r awdurdod i sicrhau'r gwerth gorau a diogelu'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

**Pleidleisiwyd ar y cynnig i gau allan y wasg a'r cyhoedd a bu i'r Cynghorydd Nia Jeffreys atal ei phleidlais ar yr eitem hon.**

**11. ACHOS BUSNES AMLINELLOL HWB HYDROGEN CAERGYBI**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio.

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi yn amodol bod Menter Môn yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad, fel y'u disgrifir yn Adran 7, a gofyn I Achos Busnes Llawn gael ei baratoi i'r Is-bwyllgor ei ystyried.**

**Gwrthod y cais gan Menter Môn am gyllid ymlaen llaw am y rhesymau a nodir yn Adran 7.**

**Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro I gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn fel y sail i ymrwymo i'r trefniadau ariannu terfynol ar gyfer y prosiect, yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn.**

**Cadarnhau bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o ddeuddeng mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen I Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd gan gyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor I'w gymeradwyo.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

**12. ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES PROSIECT ANTUR GYFRIFOL ZIP WORLD – CARTIAU GWYLLT (SLATE EXPLORER)**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer eitem Cartiau Gwyllt y prosiect Antur Gyfrifol Zip World yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU I'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Zip World yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad fel y disgrifir hwy yn Adran 7.**

2. **Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghorid a'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro I gadarnhau bod y materion sy'n weddill yn yr adroddiad wedi cael eu cwblhau cyn i'r arian gael ei ryddhau.**

3. **Awdurdodi i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad a'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, I gytuno ar delerau'r cytundeb arian grant yn unol â'r adroddiad hwn, i'w cymeradwyo yn ddiweddarach gan yr Is-bwyllgor.**

4. **Cadarnhau bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o chwe mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i gytundeb ariannu wedi'i lofnodi yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd ac ail gyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.**

5. **Nodi y gallai fod hyd at dri chymeradwyaeth Achos Busnes arall i gyflawni'r elfennau sy'n weddill o'r prosiect Antur Gyfrifol ac y byddant yn cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor i'w hystyried yn y dyfodol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer elfen Cartiau Gwyllt y prosiect Antur Gyfrifol.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

**13. ACADEMI CROESO (A ELWID GYNT YN RHWYDWAITH TALENT TWRISTIAETH) ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES DROS GYNNWYS DYLAN'S RESTAURANT LTD FEL PARTNER LLOEREN NEWYDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Dylan's Restaurant Limited i fod yn bartner lloeren ar gyfer y prosiect Academi Croeso gan Grŵp Llandrillo Menai, yn amodol bod Grŵp Llandrillo Menai a Dylan's Restaurant Limited yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad, fel y disgrifir yn Adran 7.**

2. **Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gadarnhau bod y materion sy'n weddill yn yr adroddiad wedi cael eu cwblhau cyn i'r arian gael ei ryddhau.**

3. **Nodi bod cytundeb ariannu eisoes wedi'i wneud gyda Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer prosiect Academi Croeso (Rhwydwaith Talent Twristiaeth) yn dilyn cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn, ac y bydd y cytundeb hwn yn cynnwys y broses o gyflawni'r elfen hon o'r prosiect ehangach os bydd yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes hwn.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer cynnwys Dylan's Restaurant Limited fel lloeren newydd ar gyfer y prosiect Academi Croeso gan Grŵp Llandrillo Menai.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

**14. STRATEGAETH AR GYFER GWEDDILL CYLLID Y CYNLLUN TWF SYDD HEB EI DDYRANNU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio.

**PENDERFYNWYD**

1. **Pleidleisiwyd ar y strategaeth ac ni chafwyd ei fabwysiadu yn unol â chanlyniad y bleidlais honno**

2. **Penderfynwyd cynnal gweithdy ar gyfer yr Aelodau er mwyn rhannu gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael ynghyd â gweithdrefnau fydd ar waith er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei weithredu'n effeithiol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer y strategaeth ar gyfer cronfeydd y Cynllun Twf sydd heb eu dyrannu, gan gynnwys creu dwy gronfa newydd.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

**15. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM – CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL BLWYDDYN 2 A PHROSIECT WLA**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr a chynrychiolydd AMION Consulting.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r dyraniadau buddsoddi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2 a nodi dyraniadau ym Mlwyddyn 1 a fydd yn cael eu defnyddio fel rhan o raglen Blwyddyn 2.**

2. **Cymeradwyo'r cynnig gan Wrexham Leadership Alliance ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Cyllido Grant gyda Wrexham Leadership Alliance am £200,000 (i ganiatáu costau'r prosiect o £150,000 , £0,000 TAW a £20,000 wrth gefn).**

3. **Cymeradwyo i'r Swyddog Adran 151 y CBC i lofnodi a chyhoeddi'r dogfennau Cynllun Cyflawni Blynyddol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a gwneud unrhyw ddiwygiadau ansylweddol pellach sy'n angenrheidiol i gytûn ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.**

4. **Cadarnhau ei fod yn ofynnol i unrhyw newid sylweddol i'r dyraniad cymeradwy, derbynnydd, cwmpas y prosiect, allbynnau, ffynhonnell ariannu, model cyflawni, proffil risg neu sefyllfa cydymffurfio gael ei adrodd yn ôl i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd i'w gymeradwyo ymhellach.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'n ofynnol i Barthau Buddsoddi gytuno ar Gynlluniau Cyflawni Blynyddol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 11:20.

Cadeirydd

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

2il o Hydref, 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad a Risg Chwarter 1 |
| AWDUR: | Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 1 (Ebrill i Mehefin) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan yr Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-Bwyllgor yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

2.2. Bod yr Is-Bwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:
- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 1
- Cofrestr Risg y Portffolio – Mehefin 2026

4.4. <u>Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 1</u>

4.4.1. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 1 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.4.2. Yn ystod y chwarter cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd achosion busnes ar gyfer dau brosiect. Roedd yn cynnwys achos cyfiawnhad busnes ar gyfer y Datblygiad Llaeth Cynaliadwy sy’n rhan o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon, ac achos fusnes llawn ar gyfer Ysgol Fusnes Albert Gubay. Yn ogystal cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor ddiweddariad a cais am newid ar gyfer prosiect Dyfodol Venue Cymru, ynghyd a ymestyn yr amserlen ar gyfer cwblhau y Cytundebau Cyllido Grant ar gyfer y prosiectau Tir ac Eiddo (Safleodd ac Adeiladau Gogledd Môn, Porth y Porthladd Rhydd ac Porthladd Mostyn).

4.4.3. Sefydlwyd Cronfa Chwyddiant Costau sy’n darparu £3.96m o gyllid y Cynllun Twf i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r risg gynyddol o amgylch fforddiadwyedd oherwydd pwysau chwyddiant costau.

4.4.4. Enwyd adeilad CanfodAu yn brosiect adeiladu'r flwyddyn dros £5m yng Ngwobrau Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru 2026, cyflawniad gwych i ni ochr yn ochr â Phrifysgol Wrecsam a'i bartner adeiladu - Wynne Construction.

4.4.5. Cychwynnodd gwaith yn swyddogol ar yr ail adeilad ar safle MSparc, daeth partneriaid y prosiect ynghyd ar y 6ed o Fehefin i nodi’r garreg filltir yn swyddogol.

4.4.6. Mae diweddariad Chwarter 1 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni y portffolio. Bellach nid oes prosiect yn adrodd yn goch, mae’r cyfan yn adrodd unai yn wyrdd neu ambr.

4.5. Cofrestr Risg y Portffolio – Mehefin 2026

4.5.1. Mae Cofrestr Risg y Portffolio yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a’r Is-Bwyllgor Lles Economaidd (yn flaenorol y Bwrdd Uchelgais) yn chwarterol.

4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gan y Swyddfa Rheoli Portffolio, gyda newidiadau wedi ei cofnodi yn y ddogfen gan gynnwys camau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru.

4.5.3. Roedd newid i ddau risg gyda’r risg gweddillol yn cynyddu ar y risgiau Capasiti ac Caniatâd Cynllunio a Statudol.

4.5.4. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog yn gyffredinol yn ystod y chwarter diwethaf, mae’r proffil risg yn parhau yn uchel gyda tri o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys fforddiadwyedd, buddsoddiad sector breifat, cynllunio a chaniatâd statudol, ac amcanion gwariant.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo’r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r proffil cyflawni a gwariant diwygiedig a gymeradwywyd gan yr Is-Bwyllgor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r goblygiadau cyfreithiol yn gyfyngedig. Mae adroddiadau chwarterol yn rhan o'r trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt o dan Cynllun Twf Gogledd Cymru. Y penderfyniad a geisir yw nodi'r wybodaeth am berfformiad a risg a chymeradwyo ei chyflwyno ymlaen i Lywodraethau Cymru a'r DU a phwyllgorau craffu awdurdodau lleol; nid yw'n awdurdodi unrhyw wariant ychwanegol, cymeradwyo prosiect neu gamau sylweddol eraill.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 1

**Atodiad 2:** Cofrestr Risg y Portffolio – Mehefin 2026

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

"Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r argymhellion yn gyson â'r fframwaith hwnnw ac yn dod o fewn rôl yr Is-bwyllgor wrth ystyried gwybodaeth am berfformiad a risg a chymeradwyo adrodd ymlaen i'r Llywodraeth a chyrff craffu.

Er nad oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol sy'n deillio o'r Adroddiad, dylai'r Is-bwyllgor, fodd bynnag, barhau i roi sylw i oblygiadau cyfreithiol a llywodraethu'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Portffolio. Dylai cymeradwyaethau prosiectau unigol, rheolaethau newid, trefniadau ariannu, materion caffael a materion rheoli cymhorthdal barhau i gael eu trin trwy'r prosesau sicrwydd a gwneud penderfyniadau perthnasol."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod chwarter 1. Ni fydd gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd. Byddaf yn parhau i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio wrth reoli'r risgiau perthnasol."

# Cynllun Twf Gogledd Cymru
# Adroddiad Perfformiad Chwarterol

Chwarter 1 2026-27

(Ebrill - Mehefin 2026)

THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN ENGLISH.

# CYNNWYS




| | |
|---|---|
| Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio | 3 |
| Uchafbwyntiau Chwarterol | 4 |
| Dashfwrdd Cyflawni Prosiect | 5 |
| Dashfwrdd Buddion | 6 |
| Rhaglen Cysylltedd Digidol | 8 |
| Rhaglen Ynni Carbon Isel | 10 |
| Rhaglen Tir ac Eiddo | 13 |
| Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | 15 |
| Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 17 |
| Olrhain Cynnydd y Prosiectau, Prosiectau'r Cynllun Twf: | 19 |
| Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf | 20 |
| ATODIAD A - Crynodeb Prosiectau - Cynllun Twf | 21 |

# CRYNODEB Y CYFARWYDDWR

Mae'r cynnydd wedi parhau yn ystod y chwarter hwn gyda penderfyniadau allweddol gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd I gefnogi y cyflawni. Roedd hyn yn cynnwys yr Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Elfen Llaeth Cynaliadwy'r prosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon; Achos Busnes Llawn ar gyfer Ysgol Fusnes Albert Gubay; ynghyd â chais am newid ac achos busnes wedi'i ddiweddaru ar gyfer prosiect Dyfodol Venue Cymru. Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor hefyd ymestyn y cyfnod dilysrwydd ar gyfer tri o brosiectau'r rhaglen Tir ac Eiddo (Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn, Y Porthladd Rhydd a Phorthladd Mostyn) er mwyn galluogi'r prosiectau i sicrhau eu Cytundebau Cyllid Grant. Cymeradwywyd cronfa wrth gefn ar gyfer chwyddiant costau gan yr Is-bwyllgor, sy'n darparu £3.96m cychwynnol o arian y Cynllun Twf i gefnogi cyflawniad y prosiectau yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r risg gynyddol o amgylch fforddiadwyedd yn sgil pwysau chwyddiant costau.

Cafodd ein prosiect adeiladu cyntaf, rhan o'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter, adeilad CanfodAU, ei enwi'n brosiect Adeiladu'r flwyddyn dros £5m yng Ngwobrau Adeiladu Constructing Excellence in Wales, sy'n dipyn o gamp i ni ar y cyd â Phrifysgol Wrecsam a'i bartner adeiladu - Wynne Construction.

Dechreuodd y gwaith yn swyddogol ar yr ail adeilad yn M-SParc, sy'n garreg filltir fawr i economi tyfu arloesedd gogledd Cymru. Daeth partneriaid y prosiect at ei gilydd ar 6 Mehefin i gydnabod yn ffurfiol bod y gwaith adeiladu ar y datblygiad Egni newydd wedi dechrau, a bydd hwn yn ymestyn capasiti'r parc i gefnogi busnesau, ymchwilwyr ac arloeswyr sy'n gweithio ar draws ynni carbon isel a thechnolegau uwch.

Yn ystod y chwarter hwn, fe aethom i sawl digwyddiad er mwyn eu defnyddio fel cyfle i hyrwyddo ein gwaith. Ymysg y digwyddiadau hyn roedd Eisteddfod yr Urdd, a gynhaliwyd eleni ym Môn; fe ymunom â stondin Cyngor Môn a Menter Môn; a bu'r ddau yn gyfle gwych i rwydweithio. Cafodd yr Eisteddfod ei phweru yn rhannol gan hydrogen, diolch i fenter a ariannwyd gennym ni, dan arweiniad Menter Môn. GeoPura oedd y cyflenwyr. Roedd modd i ymwelwyr gael taith o amgylch y generaduron ar y safle a blasu'r dŵr - dyma'r unig ôl-gynnyrch sy'n cael ei greu gyda'r ffynhonnell ynni gwyrdd yma.

Am y tro cyntaf, fe fynychom yr UK Real Estate Investment and Infrastructure Forum (UKREiiF), gan ymuno â Llywodraeth Cymru a'r tri Cyd-bwyllgor Corfforedig arall yng Nghymru ym Mhafiliwn Cymru Gyfan. Roedd y tridiau yma yn cynnwys sawl trafodaeth banel oleuedig, yn ogystal ag arddangos gallu Cymru i fod yn lleoliad i fuddsoddi ynddo. Fe wnaeth Uchelgais Gogledd Cymru gynnal digwyddiad brecwast gyda nawdd gan Ontix, i drafod pwysigrwydd cynllunio ar gyfer cysylltedd digidol tu mewn a thu allan, yr heriau sy'n effeithio ar ei ddefnydd, a'r cyfle i greu modelau cyhoeddus-preifat mwy effeithiol ar gyfer cysylltedd rhanbarthol.



**Hedd Vaughan-Evans**

Cyfarwyddwr Portffolio
Uchelgais Gogledd Cymru

# UCHAFBWYNTIAU



## Egni

Dechreuodd gwaith ar adeiladu Egni yn safle M-SParc, ac fe dorrwyd y dywarchen gyntaf gyda phartneriaid y prosiect ar 6 Mehefin 2026.



## Cydnerth

Cwblhawyd y gwaith ar Wedd 1 y prosiect Cydnerth.



## CanfodAu

Enwyd adeilad CanfodAU yn Brosiect Adeiladu'r Flwyddyn dros £5m yng Ngwobrau Adeiladu Constructing Excellence in Wales 2026.



## Parc Bryn Cegin

Dechreuwyd ar wedd 1 y gwaith safle ym Mharc Bryn Cegin ym mis Mai.



## Cyn Ysbyty Gogledd Cymru

Cwblhawyd y Cytundeb Cyllid Grant ar gyfer Gwedd 1 y gwaith dymchwel, adfer a diogelwch safle gyda Chyngor Sir Ddinbych, a dechreuodd y gwaith yn gynnar ym mis Mehefin.



## Hydrogen

Bu i ni ariannu prosiect ar y cyd â Menter Môn a GeoPura i bweru Eisteddfod yr Urdd gan ddefnyddio Hydrogen Gwyrdd.

# DASHFWRDD CYFLWYNO PROSIECTAU

| | Prosiectau yn Cyflawni (cyllid wedi'i ymrwymo) | Wedi'i gymeradwyo ond heb ei gyflawni eto (cyllid wedi'i ymrwymo) | Datblygu achosion busnes (cyllid wedi'i glustnodi) | Yn cael ei adolygu (cyllid wedi'i glustnodi) | Rhestr Wrth Gefn (cyllid heb ei ddyrannu) |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y Prosiectau | 8 | 10 | 7 | 1 | 11 |
| Dyraniad Cyllid y Cynllun Twf (£234.85*) | £70.27m | £65.89m | £62.93m | £3.80m | £31.96 |
| Cyfanswm Buddsoddiad (targedau achos busnes cronnus) | £257.12m | £136.64m | £342.59m | £16.22m | £247.43** |
| Swyddi (targedau achos busnes cronnus | 876 | 1,127 | 1,371 | 20 | 606** |

Tud. 25

# DASHFWRDD AMCANION GWARIANT Y PORTFFOLIO

## Creu Swyddi *

Targed erbyn 2036: **4,000**

Targed hyd at ddiwedd 2026/27: **202**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Swyddi** | Gwir gyflawnwyd ar ddiwedd 2025/26: **121** | Gwir gyflawnwyd Ch2 2026/27 | Gwir gyflawnwyd Ch4 2026/27 |
| **Swyddi Newydd** | Gwir gyflawnwyd ar ddiwedd 2025/26: **63** | Gwir gyflawnwyd Ch2 2026/27 | Gwir gyflawnwyd Ch4 2026/27 |
| Systemau | 9,870 | 0 | 9,870 |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **2,073,200** | **(424,840)** | **1,648,360** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 116,870 | 0 | 116,870 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 50,740 | (50,740) | 0 |
| Cefnogaeth Democratiaeth | 29,430 | 0 | 29,430 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 42,970 | 0 | 42,970 |
| Technoleg Gwybodaeth | 42,420 | 0 | 42,420 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **282,430** | **(50,740)** | **231,690** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 | 69,670 | 87,670 |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 | 0 | 10,000 |
| Ffi Archwilio Allanol | 28,350 | 0 | 28,350 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 25,000 | 0 | 25,000 |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **81,350** | **69,670** | **151,020** |
| **Prosiectau** | | | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 100,000 | 0 | 100,000 |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 150,000 | 0 | 150,000 |
| Cefnogaeth Gyllidol Allanol | 30,000 | 0 | 30,000 |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 50,000 | 0 | 50,000 |
| Sicrwydd | 25,000 | 0 | 25,000 |
| Cyflawni Prosiectau - Gweithwyr | 0 | 405,910 | 405,910 |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **355,000** | **405,910** | **760,910** |
| **Cynlluniau grant** | | | |
| Gwariant gweithwyr - Prosiect Ynni Ardal Leol | 0 | 88,520 | 88,520 |
| Costau cysylltiedig eraill - Prosiect Ynni Ardal Leol | 0 | 22,680 | 22,680 |
| Ymgynghorydd Allanol - Prosiect Ynni Ardal Leol | 0 | 64,800 | 64,800 |
| Gwariant gweithwyr - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 0 | 11,350 | 11,350 |
| Costau cysylltiedig eraill - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 0 | 680 | 680 |
| Cynlluniau Ffyniant Gyffredin | 0 | 14,140 | 14,140 |
| **Cyfanswm Cynlluniau grantiau** | **0** | **202,170** | **202,170** |
| **Trosglwyddiadau i gronfeydd** | | | |
| Cyfraniadau llog y Partneriaid | 154,090 | 0 | 154,090 |
| **Cyfanswm trosglwyddiadau i gronfeydd** | **154,090** | **0** | **154,090** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,946,070** | **202,170** | **3,148,240** |

| Cyllideb Refeniw y Cynllun Twf 2026/27 | | | Atodiad 6 |
|---|---|---|---|
| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau | Cyfanswm Cyllideb |
| **Incwm** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,730) | 0 | (58,730) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (58,730) | 0 | (58,730) |
| Cyngor Sir y Fflint | (58,730) | 0 | (58,730) |
| Cyngor Gwynedd | (58,730) | 0 | (58,730) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (58,730) | 0 | (58,730) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (58,730) | 0 | (58,730) |
| Prifysgol Bangor | (29,380) | 0 | (29,380) |
| Prifysgol Wrecsam | (29,380) | 0 | (29,380) |
| Coleg Cambria | (29,380) | 0 | (29,380) |
| Grŵp Llandrillo Menai | (29,380) | 0 | (29,380) |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | 0 | (40,000) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | 0 | (40,000) |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | 0 | (40,000) |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | 0 | (40,000) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | 0 | (40,000) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | 0 | (40,000) |
| **Cyfraniadau llog y Partneriaid** | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (18,140) | 0 | (18,140) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (6,070) | 0 | (6,070) |
| Cyngor Sir y Fflint | (9,140) | 0 | (9,140) |
| Cyngor Gwynedd | (6,780) | 0 | (6,780) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (28,370) | 0 | (28,370) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (18,970) | 0 | (18,970) |
| Prifysgol Bangor | (23,270) | 0 | (23,270) |
| Prifysgol Wrecsam | (24,250) | 0 | (24,250) |
| Grŵp Llandrillo Menai | (19,100) | 0 | (19,100) |
| **Eraill** | | | |
| Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru | (660,000) | 0 | (660,000) |
| Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (Prosiectau) | (435,350) | 0 | (435,350) |
| Grant Ynni Llywodraeth Cymru | 0 | (176,000) | (176,000) |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG | 0 | (26,170) | (26,170) |
| Cronfa Adnoddau | (986,730) | 0 | (986,730) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,946,070)** | **(202,170)** | **(3,148,240)** |
| **Gor / (Tan) wariant Net** | **0** | **0** | **0** |

**Cyllideb Refeniw 2026/27 y Parth Buddsoddi** **Atodiad 6**

| Gwariant | Cyllideb Sylfaenol (£) | Trosglwyddiadau (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) |
|---|---|---|---|
| **Gweithwyr** | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 0 | 7,030 | 7,030 |
| Capasiti Ychwanegol Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 | 16,230 | (9,470) | 6,760 |
| **Employees Total** | **16,230** | **(2,440)** | **13,790** |
| **Ymgynghorwyr Allanol** | | | |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 0 | 43,610 | 43,610 |
| Rheoli Rhaglen | 0 | 73,600 | 73,600 |
| **Cyfanswm Ymgynghorwyr Allanol** | **0** | **117,210** | **117,210** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | |
| Ymgynghorwyr Allanol | 0 | 69,000 | 69,000 |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **0** | **69,000** | **69,000** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 34,140 | (34,140) | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **34,140** | **(34,140)** | **0** |
| **Costau sefydlu** | | | |
| Parth Buddsoddi | 149,630 | (149,630) | 0 |
| **Cyfanswm Costau sefydlu** | **149,630** | **(149,630)** | **0** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant** | **200,000** | **0** | **200,000** |
| **Parth Buddsoddi** | (200,000) | 0 | (200,000) |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net** | **0** | **0** | **0** |

# IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

2 Hydref 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Prosiect Porth y Porthladd Rhydd, Llangefni – Cytundeb Cyllido Grant |
| AWDUR: | David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i fwrw ymlaen i ymrwymo i'r Cytundeb Cyllido Grant mewn perthynas â'r prosiect hwn gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn nodi bod yr holl gamau oedd yn weddill ar adeg cymeradwyo'r BJC bellach wedi'u cwblhau neu wedi'u hymgorffori yn y cytundeb ariannu, ac yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i gymryd pob cam gweithredol i ymrwymo i'r Cytundeb Cyllido Grant gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ni ellid cwblhau'r awdurdod penderfynu dirprwyedig a ddarparwyd yn flaenorol gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog S151 a'r Swyddog Monitro o fewn y cyfnod dynodedig oherwydd bod swydd yr Is-gadeirydd yn wag. Felly, ceisir cymeradwyaeth gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i fwrw ymlaen ac ymrwymo i'r cytundeb ariannu.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1 Fe gymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yr Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer y prosiect hwn yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2025 yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd.

4.2 Yn yr un cyfarfod, dirprwyodd yr Is-bwyllgor y pŵer i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Swyddog Monitro ac Adran 151, i gadarnhau bod y costau a'r buddion terfynol ar ôl caffael yn unol â'r achos busnes cymeradwy ac ymrwymo i gytundeb ariannu gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar gyfer cyflawni'r prosiect, yn amodol ar Gyngor Sir Ynys Môn yn mynd i'r afael â'r materion oedd yn weddill a nodwyd yn yr adroddiad ac yn sicrhau'r holl gymeradwyaethau mewnol sydd eu hangen ar gyfer y prosiect.

4.3 Roedd yr awdurdodiad dirprwyedig hwn yn ddilys am gyfnod cychwynnol o chwe mis, ac ar ôl hynny byddai'n cael ei adolygu. Mae'r awdurdodiad wedi cael ei adnewyddu ers hynny a chafodd y dyddiadau adolygu eu hymestyn gan yr Is-bwyllgor ar 15 Mai 2026 (i 1 Gorffennaf 2026) ac ar 17 Gorffennaf 2026 (i 1 Hydref 2026).

4.4 Fodd bynnag, oherwydd absenoldeb Is-gadeirydd, nid oedd y Cyfarwyddwr Portffolio yn gallu bwrw ymlaen â'r awdurdodiad dirprwyedig o fewn y cyfnod dilysrwydd.

4.5 Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cwblhau cymeradwyo'r broses sicrwydd, a bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi mynd i'r afael â'r materion oedd heb eu datrys fel y nodir yn adran 4.6. Yn ogystal, mae ffurf derfynol o Gytundeb Arian Grant bellach wedi'i chytuno gyda Chyngor Sir Ynys Môn ac mae Asesiad Rheoli Cymhorthdal wedi'i setlo gyda chymorth cynghorwyr cyfreithiol allanol i gefnogi'r prosiect.

4.6 Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb o asesiad y PMO o'r materion oedd yn weddill yn y BJC+ a'u statws cyfredol:

| | Crynodeb o Asesiad y PMO | Materion oedd yn weddill wrth gymeradwyo'r BJC+ | Statws y materion oedd yn weddill |
|---|---|---|---|
| *Yr Achos Strategol* | Mae'r BJC+ yn cyflwyno Achos Strategol sydd wedi'i ysgrifennu'n dda ac yn glir. Nid oes bylchau sylweddol, ac mae achos clir dros newid wedi'i nodi. | Mae pob mater wedi cael sylw. | Dim gweithredu pellach. |
| *Yr Achos Economaidd* | Mae'r dull cyffredinol o arfarnu economaidd ar sail lleoedd yn un cadarn, sy'n dangos defnydd priodol o egwyddorion gwerthuso economaidd a chanllawiau perthnasol, gan gynnwys Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. | Mae pob mater wedi cael sylw. | Dim gweithredu pellach |
| *Yr Achos Masnachol* | Rhoddodd Rheolwr Caffael y PMO sylwadau am yr amserlen Gaffael sy'n cwmpasu cyfnod y Nadolig, gofynnodd pa ddigwyddiadau cwrdd â'r prynwr a gynhaliwyd, os o gwbl, a soniodd pa Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol. | Caffael i'w gwblhau yn unol â'r dull a nodir yn y BJC gan benodi'r cynigydd llwyddiannus.<br><br>Cadarnhad o'r sefyllfa rheoli cymhorthdal derfynol.<br><br>Cadarnhau Penawdau Telerau'r Cyngor i brynu safle Peboc. | Wedi cwblhau'r caffael ar gyfer safle Peboc ac wedi penodi prif gontractwr. Penodir prif gontractwr ar gyfer Plot 2 Tregarnedd erbyn diwedd Medi 2026.<br><br>Cofrestru'r asesiad cymhorthdal ar y gronfa ddata ar ôl llofnodi'r Cytundeb Cyllido Grant.<br><br>Wedi cwblhau prynu'r safle. |
| *Yr Achos Ariannol* | Eglurder ar ragdybiaethau chwyddiant, arian wrth gefn, TAW a statws Cyllid Cyfalaf Sbarduno y Porthladd Rhydd. | Mae pob mater wedi cael sylw. | Dim gweithredu pellach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Yr Achos Rheolaethol* | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Dim gweithredu pellach. |
| *Atodiadau* | Cwblhau cyn llofnodi'r BJC+:<br><br>Sefyllfa Rheoli Cymhorthdal<br>Cynllun Rheoli Buddion<br><br>Mae'r atodiadau isod ar gael ar gyfer y prosiect:<br>• Asesiad Carbon a Bioamrywiaeth<br>• Cynllun y Prosiect<br>• Cynllun Cyfathrebu<br>• Asesiad Effaith Integredig<br>• Cofrestr Risg<br>• Cynllun Buddion Drafft, Cofrestr a Model Rhesymeg | **Erbyn yr Is-bwyllgor:**<br>Sefyllfa Rheoli Cym-horthdal<br><br>Cynllun Rheoli Buddion Terfynol a Chynllun Gwireddu<br><br>**Ar ôl yr Is-bwyllgor:**<br>Adroddiad Diweddariad Canlyniadau Caffael CSYM<br><br>CSYM i gwblhau prynu safle Peboc<br><br>CSYM yn cwblhau Memorandwm Deall-twriaeth ar gyfer Cyllid Cyfalaf Sbarduno y Porthladd Rhydd | Y sefyllfa wedi'i chytuno, a bydd yr asesiad yn cael ei gofrestru.<br><br>CSYM wedi cytuno ar y Cynllun Rheoli Buddion Terfynol a'r Cynllun Gwir-eddu.<br><br>Gweler y sylwadau uchod ynglŷn â'r Achos Mas-nachol.<br><br>Pryniant wedi'i gwblhau.<br><br>Cwblhawyd yr MoU. |

4.7 Gofynnir i'r Is-bwyllgor awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i gymryd pob cam gweithredol i ymrwymo i'r Cytundeb Cyllido Grant gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

5. CASGLIADAU

5.1 Cytunwyd ar ffurf y Cytundeb Cyllido Grant gyda Chyngor Sir Ynys Môn ac mae'r holl eitemau oedd yn weddill yn Adran 7 o'r adroddiad blaen i'r BJC yn mis Hydref 2025 wedi cael eu hystyried er mwyn cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes gan yr Is-bwyllgor ym mis Hydref 2025.

5.2 Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn argymell bod yr Is-bwyllgor yn cadarnhau bod y Cyfarwyddwr Portffolio wedi'i awdurdodi i gymryd yr holl gamau gweithredol angenrheidiol i fwrw ymlaen ac ymrwymo i'r Cytundeb Cyllido Grant gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r penderfyniad hwn, mae'r Prif Gontractwr ar gyfer hen safle Peboc wedi'i benodi gan y Cyngor ac mae wedi dechrau gwaith ar y safle.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Effaith y penderfyniad a geisir yw rhoi awdurdod newydd i'r Cytundeb Cyllido Grant gael ei ymrwymo ar ôl i'r awdurdod dirprwyedig blaenorol ddod i ben. Ar ôl ei gwblhau, bydd y Cytundeb yn creu rhwymedigaethau cytundebol ac amodau cyllido rhwymol rhwng y partïon. Mae'r adroddiad yn cofnodi bod yr asesiad rheoli cymhorthdal wedi'i setlo, gyda'r cofrestriad gofynnol i ddilyn ar ôl ei lofnodi. Mae goblygiadau cyfreithiol fel arall yn gyfyngedig.

8. ASESIADAU EFFAITH

8.1. Cynhaliwyd asesiad effaith integredig wrth gymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes i asesu effaith y prosiect ar y Gymraeg, cydraddoldeb ac yn erbyn Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hadnabod drwy'r asesiad.

DOGFENNAU CEFNDIR *(ar gael ar gais)*

- Prosiect Porth Porthladd Rhydd - BJC+
- Atodiadau BJC+
- Adroddiad ar Gais i ymestyn y Cyfnod Dilysrwydd ar gyfer tri Phrosiect Rhaglen Tir ac Eiddo (15/05/2026)
- Prosiect Porth y Porthladd Rhydd – Cais i ymestyn adroddiad cyfnod dilysrwydd (17/07/2026)

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

"Mae'r adroddiad yn briodol yn dod â'r mater yn ôl i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo ar ôl i'r awdurdod dirprwyedig blaenorol ddod i ben. Mae'r penderfyniad a geisiwyd yn darparu digon o awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio fwrw ymlaen â chwblhau'r Cytundeb Cyllido Grant."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes wedi bod yn destun adolygiad fanwl ac o safbwynt ariannol rwyf yn fodlon fod y camau angenrheidiol wedi cael eu cymryd i sicrhau fod y risgiau wedi eu rheoli i lefel rhesymol.  Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

2 Hydref 2026

TEITL: Cynlluniau Defnyddio prosiect LPWAN

AWDUR: Stuart Whitfield, Rheolwr Rhaglen Ddigidol

1 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cyflwyno manylion y Cynlluniau Defnyddio mewn perthynas â phrosiect LPWAN er ystyriaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo rhyddhau y cyllid ar gyfer y Cynlluniau Defnyddio amlinellir yn adran 4.10 o’r adroddiad mewn perthynas â phrosiect LPWAN ac awdurdodi’r Cyfarwyddwr Portffolio i gymryd y camau gweithredu angenrheidiol i fynd mewn i Gytundebau Cyllido Grant gyda’r awdurdodau lleol perthnasol.

2.2. Bod yr Is-Bwyllgor yn cymeradwyo cadw y tan wariant amlinellir yn adran 5.1 o fewn cyllideb y prosiect am gyfnod o 12 mis ar gyfer caniatáu i Gynlluniau Defnyddio pellach gael ei datblygu gyda’r awdurdodau lleol ac i ddirprwyo y gymeradwyaeth o’r cynlluniau i’r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad a’r Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Swyddog Adran 151 a’r Swyddog Monitro.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Cynlluniau Defnyddio mewn perthynas â phrosiect LPWAN. Ni all yr awdurdod dirprwyedig blaenorol i’r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad a’r Aelod Arweiniol a’r Rhaglen Ddigidol gael ei gwblhau oherwydd oherwydd swydd wag yr Aelod Arweiniol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwywyd Achos Cyfiawnhad Busnes LPWAN gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 19 Gorffennaf, 2024, ar y sail y byddai'r Cynlluniau Defnyddio unigol ar gyfer pob awdurdod lleol yn cael eu cymeradwyo drwy benderfyniad dirprwyedig.

4.2. Yn dilyn cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes yn 2024, darperir cefndir pellach i'r prosiect fel atodiad i'r adroddiad hwn (Atodiad 1). Mae'r prosiect yn cynnwys dyrannu cyllid cyfalaf i bump o gynghorau'r rhanbarth i alluogi ehangu cwmpas rhwydwaith 'LoRaWAN' a defnyddio dyfeisiau LoRaWAN a all alluogi gwell darpariaeth ar draws ystod eang o wasanaethau cyhoeddus. Mae'r cwmpas (a ddarperir gan 'byrth' sydd wedi'u gosod ar adeiladau cyhoeddus, yn aml ysgolion mewn ardaloedd gwledig) hefyd yn hygyrch i'r sector preifat a bydd yn galluogi busnesau sy'n dymuno ymchwilio i fanteision y dechnoleg ddiwifr gymharol fforddiadwy ac

amlbwrpas hon i dreialu ac arloesi. Ochr yn ochr â gosod pyrth LoRaWAN a darparu cwmpas rhwydwaith, bydd y cynghorau hefyd yn cefnogi gweithgareddau i hyrwyddo LoRaWAN i'r sector preifat yn ehangach y tu hwnt i'r sector cyhoeddus. Pan fydd busnesau'n gweld gwerth yn y dechnoleg wrth ei dreialu, efallai y byddant yn dymuno buddsoddi yn eu cwmpas rhwydwaith eu hunain, sy'n cael ei ystyried yn ffordd gost-effeithiol o gefnogi cymwysiadau 'Internet of Things' (neu IoT) gydag ystod sy'n ehangu o gymwysiadau busnes ar gyfer llawer o ddiwydiannau.

4.3. Ers cymeradwyo’r Achos Cyfiawnhad Busnes Gwreiddiol:

- Mae gwaith wedi'i gynnal i fapio dosbarthiad y pyrth i nodi lleoliadau ar gyfer pyrth i'w gosod ym mhob sir
- Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi caffael fframwaith cyflenwi ar gyfer y cynghorau sy'n cymryd rhan i brynu pyrth LoRaWAN
- Mae Cynlluniau Defnyddio wedi'u datblygu gan bump o gynghorau'r rhanbarth yn dilyn ymgysylltu ar lefel gwasanaeth mewnol.

4.4. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi dewis peidio â mynd ar drywydd defnyddio LoRaWAN ar hyn o bryd, fodd bynnag, bydd y cyngor yn parhau i ymgysylltu â'r prosiect i sicrhau bod y wybodaeth a ddatblygir yn rhanbarthol yn cael ei rhannu i lywio ystyriaethau yn y dyfodol o'r defnydd o'r dechnoleg.

4.5. Ymdriniwyd â'r camau gweithredu a oedd yn weddill yn y Cam Cyfiawnhau Busnes:

| | Crynodeb o Asesiad y PMO | Materion sy’n weddill |
|---|---|---|
| Yr Achos Economaidd | • Y buddion i'w hadolygu, ymarferoldeb yr asesiad buddion / meintoliad i'w ystyried. | • Proffiliau buddion ar lefel sirol i'w cadarnhau o fewn y Cynlluniau Defnyddio Lleol fel amod cyllido<br>WEDI’I GWBLHAU<br>• Adolygiad PMO terfynol, gan gynnwys Adolygiad Hatch.<br>WEDI’I GWBLHAU |
| Yr Achos Masnachol | • Adolygu'r dull masnachol, dealltwriaeth y cynghorau o'r goblygiadau<br>• Dilyniant y caffael i gael ei wneud yn gliriach | • Cynnal mapio cychwynnol / dylunio rhwydwaith cyn cadarnhau fforddiadwyedd y sgôp craidd/dymunol/dewisol.<br>WEDI’I GWBLHAU<br>• Adolygiad PMO terfynol<br>WEDI’I GWBLHAU |
| Yr Achos Ariannol | • Adolygu'r tybiaethau cost; dyluniad y rhwydwaith, pryniant porth, costau rheoli'r rhwydwaith | • Cadarnhau'r gyllideb gyfalaf ar ôl y dyluniad rhwydwaith cychwynnol<br>WEDI’I GWBLHAU<br>• Cynghorau i gadarnhau fforddiadwyedd cyflawni'r adnoddau ar gyfer gweithredu gweithgareddau porth a hybu galw, i'w gadarnhau mewn Cynlluniau Defnyddio Lleol.<br>WEDI’I GWBLHAU<br>• Swyddog Adran 151 i adolygu<br>WEDI’I GWBLHAU |

| | Crynodeb o Asesiad y PMO | Materion sy’n weddill |
|---|---|---|
| Yr Achos Rheolaethol | • Adolygu'r rheolaeth prosiect a'r gofynion adnoddau cyflawni<br>• Diweddaru'r gofrestr risg<br>• Diweddaru'r Cynllun Gwireddu Buddion Cadarnhau'r gofynion gwerthuso | Cadarnhau'r trefniadau adnoddau ar gyfer y rheolwr prosiect. Ymgynghori â chynghorau ar gyfleoedd am secondiad neu recriwtio'n allanol WEDI’I GWBLHAU<br>• Diweddaru'r gofrestr risg cyn adolygiad y Bwrdd Uchelgais Economaidd WEDI’I GWBLHAU<br>• Diweddaru Cynllun Gwireddu Buddion cyn adolygiad y Bwrdd Uchelgais Economaidd WEDI’I GWBLHAU<br>• Cytundeb Cyllido Grant ar gyfer y Cynghorau wedi drafftio, Cynghorau i’w adolygu WEDI’I GWBLHAU |

4.6. Crynhoir y cynlluniau datblygu cyfarpar unigol yn y tabl isod, sy'n cynnwys nifer y pyrth a'r synwyryddion, amserlenni defnyddio a gweithgareddau hyrwyddo.

Mae gan y prosiect bedwar o amcanion gwariant:

- Cyflawni cysylltedd LPWAN fforddiadwy a rhwydd i'w ddefnyddio i leoliadau â blaenoriaeth yn chwe sir Gogledd Cymru erbyn 2027, gan alluogi effeithiolrwydd ledled gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi arloesedd yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

- Cefnogi mabwysiadu 10-20 rhaglen newydd o dechnoleg LPWAN ledled y sectorau cyhoeddus a phreifat yn y rhanbarth erbyn 2032.

- Cefnogi rhwng £0.1m-£0.5m o fuddsoddiad yn y rhanbarth erbyn 2032.

- Cefnogi creu 20 o swyddi yn y rhanbarth erbyn 2032.

4.7. Mae'r Cynlluniau Defnyddio yn dangos cyfraniadau i'r rhain gyda disgwyl i'r buddsoddiad a chreu swyddi gael eu cyflawni'n anuniongyrchol rhwng 2027-2032.

4.8. Mae'r manteision uniongyrchol arfaethedig i'w gwireddu ym mhob sir yn cael eu crynhoi isod. Bydd manteision anuniongyrchol yn gysylltiedig â defnyddio'r rhwydwaith gan y sector preifat a defnyddwyr eraill y sector cyhoeddus nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect. Ni fydd y buddion hyn yn hawdd eu nodi ac felly ni fydd gwerth am arian ar gyfer y prosiect ond yn canolbwyntio ar y buddion hynny y gellir eu nodi'n hawdd.

4.9. Er bod y Cynlluniau Defnyddio yn manylu ar ddefnyddio nifer is o byrth yn y lle cyntaf (137) o'i gymharu â'r 250 a ragwelwyd yn wreiddiol, mae'r manteision cyffredinol yn cymharu'n ffafriol â gwerth is y buddsoddiad cyfalaf a gynigir gyda Chymhareb Cost Budd a gyflwynir bellach fel 2.79 o'i gymharu â'r asesiad gwreiddiol o 2.46.

4.10. Argymhellir y bydd y tanwariant o £691,233 yn parhau i fod ar gael i Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio yn ystod y prosiect i wella cwmpas y pyrth a'r cymwysiadau ymhellach wrth i'r galw newydd am LoRaWAN o fewn gwasanaethau gael ei nodi a'i gadarnhau. Mae'r broses o ymgysylltu â gwasanaethau cyngor i hyrwyddo'r cyfleoedd y mae LoRaWAN yn eu cyflwyno

wrth gefnogi darparu gwasanaethau yn un barhaus ac mae'r diddordeb yn parhau i gynyddu wrth i'r ymwybyddiaeth honno gynyddu, yn enwedig trwy ymgysylltu rhwng cynghorau sy'n dangos themâu cyffredin. Wrth ymestyn cwmpas y pyrth ymhellach, bydd y prosiect yn darparu cwmpas LoRaWAN ehangach i'w ddefnyddio gan y sector preifat.

| | Cyfanswm costau | Cyfanswm buddion (6 mlynedd) | Cymhareb budd / cost |
|---|---|---|---|
| Cynlluniau Defnyddio 2026 | £449,619 | £1,255,545 | 2.79 |
| Achos Cyfiawnhad Busnes 2024 | £1,140,852 | £2,816,268 | 2.46 |

<u>Manylion ac buddion cymwysiadau gwasanaethau cyhoeddus a gefnogir mewn Cynlluniau Defnyddio</u>

Mae gwerth buddion yn cael ei darparu gan bob Cyngor sydd wedi amcangyfrif ystod o arbedion cost a nodwyd, gan gynnwys llai o gostau llafur, disodli systemau costach presennol a gostyngiadau mewn costau eraill megis atgyweiriadau osgoi, amser teithio, arbedion ynni ac ati. Mae rhai ceisiadau wedi'u nodi o fewn sawl cyngor, megis monitro perygl llifogydd ac ymgysylltu parhaus o fewn a rhwng cynghorau yn parhau i nodi ceisiadau pellach o fudd posibl.

| | Application | Description | |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ddinbych** | Gollyngiadau ysgol | Canfod gollyngiadau ar draws yr ystâd ysgolion | |
| | Niferoedd Ymwelwyr | Arbed cost amnewid system | |
| | Awyr dywyll | Awtomeiddio tasg sydd yn un a wneir â llaw ar hyn o bryd | |
| | Planhigfa'r Cyngor | Awtomeiddio monitro lefelau dyfrhau | |
| | Niferoedd Ymwelwyr | Arbed cost amnewid system | |
| | Perygl o Lifogydd | Awtomeiddio monitro lefel llifogydd mewn cwlferi | |
| | Biniau graeanu | Awtomeiddio monitro bin graean | |
| | Monitro pŵer solar | Monitro pŵer Paneli Solar | |
| | Archifau | Monitro lleithder mewn amgueddfeydd | |
| | Addysg | Monitro systemau oeri a diogelwch mewn amser real | |
| | Niferoedd Ymwelwyr | Arbed cost amnewid system | |
| | Cyfanswm Buddion (£) | | **£ 389,283** |
| **Cyngor Sir y Fflint** | Perygl o Lifogydd | Awtomeiddio monitro lefel llifogydd | |
| | Dyfrio | Lleihau marwolaethau coed | |
| | Monitro llif dŵr | Canfod gollyngiadau | |
| | | Cyfanswm Buddion (£) | **£ 287,046** |
| **Cyngor Gwynedd** | Monitro biniau | Lleihau casgliadau gwastraff | |
| | Difrod storm | Lleihau ymweliadau â safleoedd ar ôl stormydd | |
| | Modelu llifogydd | Rhagfynegi llifogydd | |
| | Canfod fêps | Canfod fepio | |
| | Cartrefi Oer | Adnabod lleithder a llwydni | |
| | | Cyfanswm Buddion (£) | **£ 351,936** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | Cynnal a chadw ffyrdd yn y gaeaf | Monitro tymheredd y ffordd ar gyfer arbedion ar raeanu | |
| | Perygl o Lifogydd | Monitro safleoedd risg uchel o bell | |
| | | Cyfanswm Buddion (£) | **£ 81,000** |
| | Perygl o Lifogydd | Monitro safleoedd risg uchel o bell | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeis-tref Sirol Conwy | Lleithder pridd | Monitro lleithder pridd o bell yn Stryd Lloyd, Llandudno | | |
| | Gwytnwch y rhwydwaith | Gwell gwytnwch cysylltedd yn cefnogi monitro perygl llifogydd yn Nyffryn Conwy | | |
| | Perygl o Lifogydd | Synwyryddion lefel dŵr ar gyfer gorchuddion tyllau a mynediad cyfyngedig i gwlferi | | |
| | Tymheredd y Dŵr | Monitro cyflenwad dŵr poeth ar gyfer ysgolion | | |
| | | Cyfanswm Buddion (£) | **£** | **146,280** |
| | **Cyfanswm Rhanbarthol Buddion (£)** | | £ | 1,255,545 |

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ers cymeradwyo'r Achos Busnes, mae'r prif fater ariannol yn ymwneud â'r tanwariant arfaethedig o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf wreiddiol a ddyrannwyd ar gyfer y prosiect. Mae cyfuniad o (i) llai o alw cychwynnol gan gynghorau am y pyrth (ii) penderfyniad gan Cyngor Ynys Môn i beidio cyflwyno Cynlluniau Defnyddio ar gyfer y rownd yma o ariannu ac (iii) cost is na'r disgwyl i'r pyrth yn dilyn caffael fframwaith llwyddiannus wedi arwain at ofyn is yn y gyllideb gyfalaf. Fodd bynnag, mae cynghorau wedi nodi, wrth i ymgysylltu mewnol barhau, y bydd y galw am byrth a dyfeisiau newydd yn parhau. Felly, cynigir y dylid cadw'r tanwariant a ragwelir o'r Cynlluniau Defnyddio cyfredol i ategu cynlluniau cynghorau yn ystod y prosiect, gyda cheisiadau unigol am gyllid ychwanegol yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i Uchelgais Gogledd Cymru i'w cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Portffolio lle mae'r costau'n bodloni trothwy gwerth am arian lleiaf yr Achos Cyfiawnhad Busnes gwreiddiol.

Crynodeb o'r costau cyfalaf yn ôl awdurdod lleol (Cynlluniau Defnyddio 2027)

| | Pyrth | | Synwyryddion / Dyfeisiau | | Llafur (gosod) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **Nifer** | **£** | **Nifer** | **£** | **Swyddog** | **Contractwr** | **Cyfanswm** |
| Sir Ddinbych | 36 | £ 15,453 | 187 | £ 25,059 | £ 8,301 | £ 23,560 | £ 72,373 |
| Gwynedd | 30 | £ 12,199 | 168 | £ 36,667 | £ 2,400 | £ 30,000 | £ 81,266 |
| Sir y Fflint | 31 | £ 15,599 | 56 | £ 9,962 | £ 3,720 | £ 31,000 | £ 60,281 |
| Wrecsam | 25 | £ 9,173 | 10 | £ 27,800 | £ 2,500 | £ 23,000 | £ 62,473 |
| Conwy | 15 | £ 6,825 | 105 | £ 17,300 | £ 2,250 | £ 2,250 | £ 28,625 |
| Cyfanswm | 137 | £ 59,249 | 526 | £ 116,787 | £ 19,171 | £ 109,810 | £ 305,018 |
| | | Asedau sefydlog £176,036 | | | Gosod pyrth £128,981 | | |

Costau cyfalaf yn yr Achos Cyfiawnhad Busnes LPWAN (2024) ac Cynlluniau Defnyddio (2026).

| Eitem | Gwariant wedi'i gynllunio BJC | Gwariant Cynlluniau Defnyddio | Gwahaniaeth |
|---|---:|---:|---:|
| Asedau sefydlog (Pyrth, synwyryddion a chysylltiad) | £578,750 | £176,036 | £402,714 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cysylltiad pyrth (costau wedi cyfalafu) | £405,000 | £128,981 | £276,019 |
| Mapio pyrth | £20,000 | £7,500 | £12,500 |
| Eitenau cyfalaf eraill (adnewyddu offer) | £43,750 | £43,750 | £0 |
| Cyfalafu costau staff (UGC, rheoli prosiect) | £93,352 | £93,352 | £0 |
| **Total** | **£1,140,852** | **£449,619** | **£691,233** |

5.2. Yn amodol ar gymeradwyaeth yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, byddai'r tanwariant o £691,233 yn cael ei gadw yng nghyllideb y prosiect am 12 mis er mwyn caniatáu datblygu a chytuno ar Gynlluniau Defnyddio pellach gyda'r chwe awdurdod lleol. Byddai'r defnydd o unrhyw danwariant sy'n weddill ar ddiwedd y cyfnod hwn o 12 mis yn fater i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ei benderfynu.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Bydd cymeradwyo'r argymhellion yn awdurdodi rhyddhau cyllid Cynllun Twf ar gyfer y Cynlluniau Defnyddio presennol ac yn galluogi'r CBC i ymrwymo i Gytundebau Cyllido Grant gyda'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan. Bydd hefyd yn dirprwyo cymeradwyaeth Cynlluniau Defnyddio pellach i'r Cyfarwyddwr Portffolio yn dilyn yr ymgynghoriadau penodedig. Mae asesiad rheoli cymhorthdal wedi'i gynnal ac wedi dod i'r casgliad nad yw'r trefniadau yn gymhorthdal.

## 7. ASESIADAU EFFAITH

7.1. Ni nodir unrhyw newidiadau pellach i'r asesiad effaith a gynhaliwyd yn y cam cymeradwyo Achos Cyfiawnhad Busnes.

---

Dogfennau cefndirol (ar gael ar gais):

Crynodeb o'r Cynlluniau Defnyddio
Cynllun Defnyddio Cyngor Gwynedd
Cynllun Defnyddio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cynllun Defnyddio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynllun Defnyddio Cyngor Sir y Fflint
Cynllun Defnyddio Cyngor Sir Ddinbych
Achos Cyfiawnhad Busnes LPWAN (Gorffennaf 2024)

---

ATODIADAU:

Atodiad 1 — Cefndir i'r prosiect LPWAN

---

SYLWADAU STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwy'n fodlon bod yr argymhellion yn darparu sail briodol ar gyfer cymeradwyo'r Cynlluniau Defnyddio presennol ac ar gyfer y defnydd rheoledig o gyllideb y prosiect sy'n weddill ar gyfer Cynlluniau Defnyddio pellach."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Ar sail y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniadau a geisir."

Atodiad 1

## Cefndir i'r prosiect LPWAN

Fe wnaeth y Rhaglen Ddigidol adnabod yr angen am fuddsoddi mewn LPWAN – Rhwydwaith Pŵer Isel, Ardal Eang (*Low-Power, Wide-Area Network*) yn yr Achos Busnes Rhaglen yn 2020, fel ymyrraeth gyda ffocws gwledig yn y lle cyntaf. Mae'r prosiect yn rhan o'r Portffolio a gymeradwywyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru. Mae hwn yn brosiect i ddarparu seilwaith digidol law yn llaw â'r prosiect 4G+ (rhwydweithiau symudol) a'r prosiect Di-Wifr Uwch (technolegau diwifr megis 5G). Mae'r prosiect LPWAN yn rhan o'r prosiect Campysau Cysylltiedig cyffredinol, ochr yn ochr â'r prosiect Di-wifr Uwch.

Mae LPWAN yn gyfres eang o dechnolegau sy'n cefnogi'r rhaglenni 'Rhyngrwyd Pethau' (IoT) ac mae sawl opsiwn yn cael eu mabwysiadu'n fyd-eang i gefnogi gweithgarwch economaidd ar draws amryw o ddiwydiannau. Yn y DU, mae LPWAN yn cael ei fabwysiadu fwyfwy i wasanaethu defnyddwyr sy'n gofyn am fonitro asedau ac amgylcheddau o bell mewn ffordd sy'n gost effeithiol, na fyddai'n fforddiadwy fel arall. Mae'r dechnoleg yn caniatáu capasiti mwy ar gyfer casglu a monitro data ac mae'n galluogi gwelliannau arwyddocaol mewn effeithlonrwydd a chynhyrchedd busnes pan gânt eu defnyddio'n briodol.

Yng ngogledd Cymru, y prif fath o dechnoleg LPWAN sy'n cael ei defnyddio'n helaeth gan y sector cyhoeddus yw LoRaWAN (Rhwydweithiau Ardal Eang Ystod Hir), yn enwedig gan gynghorau. Mae rhai cynghorau wedi dod yn gyfarwydd iawn â'r dechnoleg a'r cyfleoedd y mae'n eu cyflwyno, tra bod eraill yn y cam cynharach o'i mabwysiadu.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi buddsoddi mewn gwasanaeth LoRaWAN yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan dreialu rhaglenni amrywiol - y mwyaf diweddar o'r rheini oedd gwella sut mae'n monitro perygl llifogydd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi treialu ystod eang o raglenni, gan gynnwys monitro'r risg o lifogydd, mewn-adeiladu amodau amgylcheddol, a monitro system oeri (*refrigeration*) o bell, er enghraifft. Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi sefydlu'r defnydd o LoRaWAN ar gyfer monitro'r risg o lifogydd ac mae'n crybwyll y dechnoleg yn ei Strategaeth Ddigidol gorfforaethol. Mae'r landlord cymdeithasol Adra wedi defnyddio synwyryddion LoRaWAN yn helaeth ar draws ei ystâd i gefnogi monitro amodau yn ei eiddo. Mae cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint hefyd wedi mabwysiadu'r dechnoleg ac wedi adnabod defnydd ehangach a all helpu wrth ddarparu gwasanaethau ymhellach.

Yn y sector preifat, mae'n anoddach meintioli'r defnydd o LPWAN. Fodd bynnag mae sefydliadau mwy gydag asedau sydd wedi'u dosbarthu'n eang, megis cwmnïau cyfleustodau, yn aml yn defnyddio ffurfiau o LPWAN er mwyn monitro asedau o bell ac mae cymunedau o Fusnesau Bach a Chanolig (SME) yn y rhanbarth yn parhau i ddatblygu diddordeb mewn mabwysiadu'r dechnoleg. Mae Llywodraeth Cymru wedi noddi sawl menter yn y blynyddoedd diweddar i hyrwyddo IoT ac yn benodol LoRaWAN, gyda mentrau yn cynnwys

amaethyddiaeth (drwy Cyswllt Ffermio) a chanol trefi (drwy Trefi Clyfar,  gan Menter Môn). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu cynghorau i osod rhwydweithiau LoRaWAN ar draws Cymru, gan gynnwys yn y Gogledd, gan sefydlu gwasanaeth ar draws rhai ardaloedd allweddol o ddiddordeb. Yn 2025 arweiniodd Uchelgais Gogledd Cymru brosiect Cronfa Eiddo a Rennir oedd yn darparu cymorth i 16 o fentrau fferm ledled y rhanbarth, gan gynnwys treialu'r dechnoleg i wella gwaith y fferm. Arweiniodd y prosiect hwn at ganlyniadau cadarnhaol a welwyd mewn gwahanol fathau o ffermydd, a phenderfynodd nifer o'r rhai a gymerodd ran barhau neu ehangu'r defnydd o LoRaWan ymhellach oherwydd y manteision a welwyd yn y treialon (gweler am ragor o fanylion Treialon IoT Amaethyddiaeth Smart - Proffiliau Ffermwyr - Mentera)

Mae'r gwasanaeth LoRaWAN sy'n cael ei gynnal gan y cynghorau ar hyn o bryd yn darparu 'mynediad agored' i ddefnyddwyr eraill, gan gefnogi treialu ac arloesi gydag achosion defnydd mewn unrhyw ddiwydiant. Dyma lwybr hygyrch i fusnesau brofi a deall sut gall y ffurf hwn o IoT ddarparu manteision. Mae mynediad i'r rhwydwaith wedi'i gyfyngu gan y gwasanaeth *(coverage)* a bydd darparu gwasanaeth mwy estynedig yn golygu bod modd i amrediad mwy o ddefnyddwyr posib arloesi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r gwasanaeth ar ei isaf ar hyn o bryd. Mae enghraifft berthnasol a sefydledig o ddull gweithredu tebyg gan y sector cyhoeddus i'w gweld yn Swydd Gaergrawnt LoRa - Connecting Cambridgeshire.

Mae LPWAN yn cael ei ddefnyddio i gefnogi a gwella darpariaeth gwasanaethau ac wrth wneud hynny gall gefnogi cynhyrchedd a thwf. Mae mabwysiadu'r dechnoleg yn gofyn am sgiliau ac adnoddau staffio ac mae'r galw amdanynt yn datblygu wrth i'r galw gan ddefnyddwyr gynyddu. Felly, mae creu swyddi i'w ddisgwyl o ganlyniad i'w mabwysiadu'n ehangach, gyda staff TGCh, dadansoddwyr data a rolau cynnal a chadw ychwanegol. Pan fo'r defnydd o LPWAN yn cefnogi twf busnes, disgwylir gweld y gweithlu'n ehangu'n gyffredinol.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

2 Hydref 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Rhaglen Mabwysiadu Ynni Adnewyddadwy yn y Cartref (HARP) |
| AWDUR: | Meghan Davies, Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ceisio cymeradwyaeth gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer datblygiad Rhaglen Mabwysiadu Ynni Adnewyddadwy yn y Cartref (HARP) ar draws Gogledd Cymru a chymeradwyaeth i barhau efo'r weithgaredd caffael angenrheidiol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo datblygiad y Rhaglen Mabwysiadu Ynni Adnewyddadwy yn y Cartref (HARP) ar gyfer Gogledd Cymru.

2.2. Bod yr Is-bwyllgor yn awdurdodi Uchelgais Gogledd Cymru i arwain ar y gweithgaredd caffael i benodi darparwr ar ran yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio i wneud unrhyw gamau gweithredol i gwblhau'r weithgaredd.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae angen am benderfyniad i symud ymlaen gyda'r Rhaglen Mabwysiadu Ynni Adnewyddadwy yn y Cartref er mwyn caniatáu i Uchelgais Gogledd Cymru gaffael cyflenwr ar gyfer y rhaglen ac ar gyfer cyflawni'r rhaglen yng ngogledd Cymru.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. **Y Prosiect**

4.1.1. Mae'r rhaglen yn ceisio darparu dull rhanbarthol cydlynol o ddefnyddio ynni adnewyddadwy mewn cartrefi trwy dargedu preswylwyr, cyfanswm y galw a chaffael cystadleuol. Disgwylir i'r rhaglen gefnogi defnyddio technolegau fel systemau solar ffotofoltaidd (PV), systemau storio ynni batri a thechnolegau ynni adnewyddadwy domestig eraill.

4.1.2. Bydd yn cyflawni'r camau gweithredu lleol a rhanbarthol a nodir yn y Cynlluniau Ynni Ardal Leol (LAEPs) ar gyfer pob un o Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, sy'n manylu ar dargedau ar gyfer gosod pympiau gwres, gwefrwyr cerbydau trydan (EV) a systemau solar ffotofoltaidd, yn ogystal â nodau cynhyrchu ynni lleol a datgarboneiddio. Mae hefyd yn cyfrannu at dargedau datgarboneiddio cenedlaethol, gan gynnwys targed sero net 2050 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.1.3. Er mwyn cyflawni'r targedau a nodir yn y LAEP, dylid blaenoriaethu'r 'ffrwyth isaf sy'n crogi' lle bo hynny'n bosibl, gan ganiatáu amser i gamau gweithredu mwy cymhleth, tymor hwy gael eu cynllunio a'u cyflawni. Felly, mae'r rhaglen yn targedu'r demograffig sy'n gallu talu mewn post a anfonir yn uniongyrchol fel prif ddefnyddwyr y cynllun, er bod y rhaglen yn agored i unrhyw un sy'n byw mewn awdurdodau sy'n cymryd rhan. Er mai'r gallu i dalu yw'r prif ddemograffig targed, nid yw'r rhaglen yn atal defnyddio grantiau i dalu am rai neu'r cyfan o'r gosodiadau.

4.1.4. Mae cynlluniau tebyg sydd ar gael, neu sydd wedi bod, yn cynnwys:

- Iteriadau o'r cynllun ECO, yn fwyaf diweddar ECO4, a oedd yn agored i aelwydydd bregus ac incwm isel yn darparu mesurau effeithlonrwydd ynni fel inswleiddio, systemau gwresogi newydd a gwydr wedi'i ddiweddaru.
- Cynllun Nyth - Cartrefi Cynnes sy'n darparu cyngor a gwelliannau ynni am ddim yn y cartref i aelwydydd bregus ac ar incwm isel.
- Grant y Cynllun Uwchraddio Boeleri (BUS) sy’n rhoi grant i bob preswylydd cymwys sydd eisiau uwchraddio boeler nwy neu olew i bwmp gwres ffynhonnell aer, pwmp gwres ffynhonnell daear neu foeler biomas (mae cyfyngiadau'n berthnasol i'r boeler biomas).
- Y Rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio sy’n darparu cymorth i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddatgarboneiddio tai cymdeithasol.

4.1.5. Ac eithrio'r grant Cynllun Uwchraddio Boeler (sydd â chyfyngiadau ar gymhwysedd dull gwresogi a thechnoleg), nid oes yr un o'r cynlluniau ar gael i brif dargedau y rhaglen. Ni fydd y rhaglen yn rhoi cymhorthdal am gost y gosod yn uniongyrchol ond, drwy'r broses ocsiwn gwrthdro, bydd yn cynnig prisiau cystadleuol i bawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Yn ogystal, efallai y bydd aelwydydd sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd perthnasol yn gallu cael mynediad at gymorth ariannol drwy'r cynlluniau uchod. Er enghraifft, mae Cymru Gynnes yn galluogi rhai preswylwyr bregus ac ar incwm isel i dderbyn gosodiadau effeithlonrwydd ynni a thechnoleg carbon isel wedi'u hariannu'n llawn, gan helpu i ehangu mynediad i'r rhaglen.

4.1.6. Disgwylir i'r cam cychwynnol gynnwys postio gwybodaeth yn uniongyrchol i dros 100,000 o aelwydydd ledled y gogledd sy'n perthyn i'r demograffig 'yn gallu talu' (fel y disgrifir gan ddata Experian). Mae enghreifftiau o ranbarthau eraill, megis Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR), sydd wedi cadarnhau bod defnyddio post yn dal i fod yn ffordd effeithiol o hysbysebu cynlluniau o'r fath. Yn ogystal, bydd awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn marchnata'r cynllun fel y gwelant yn dda, gan gynnwys trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac i ardaloedd a thrigolion anodd eu cyrraedd, gan gynnwys y rheiny mewn ardaloedd gwledig. Trwy anelu at hysbysebu'r cynllun i gymaint o drigolion â phosibl, bydd effaith bosibl y rhaglen yng ngogledd Cymru yn cael ei huchafu i'r eithaf.

4.1.7. Er mai prif ffocws y rhaglen yw'r sector domestig, y bwriad yw y bydd mentrau bach a chanolig (SMEs) a chanolfannau cymunedol hefyd yn gallu cymryd rhan yn y rhaglen lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, bydd yr ymgyrch ymgysylltu a marchnata gychwynnol gyda phreswylwyr yn canolbwyntio ar aelwydydd ac felly ni fydd y sefydliadau hyn yn rhan o'r broses bostio ranbarthol wedi'i thargedu.

4.1.8. Er mwyn talu am gost anfon drwy'r post, gofynnir i Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan dalu ffi fach rhwng £4,500 a £10,500, yn dibynnu ar nifer y tai cymwys yn yr Awdurdod Lleol (am ragor o fanylion gweler Atodiad A). Bydd yr Awdurdod Lleol wedyn yn derbyn oddeutu £82.50 yn ôl gan y cyflenwr am bob tŷ sy'n cofrestru ac yn talu am osodiad. O'r dystiolaeth anecdotaidd a dderbyniwyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, fe wnaeth y mwyafrif o Awdurdodau Lleol yn eu rhanbarth adennill eu costau, wrth wneud cynllun tebyg, neu hyd yn oed wneud elw bach.

4.1.9. Er mwyn annog trigolion i gofrestru ar y cynllun, mae y rhaglen yn cynnig pris gostyngol iddynt am y gwaith gosod o ganlyniad i brynu fel rhan o gynllun grŵp o'i gymharu â mynd ar drywydd gosod ar eu pennau eu hunain yn y farchnad agored. Er mwyn cyflawni hyn, mae HARP yn cynnig defnyddio model ocsiwn gwrthdro, gan alluogi cyflenwyr achrededig i gystadlu am gyfleoedd gosod crynswth ledled y rhanbarth. Mae hyn yn cymell gosodwyr i gynnig prisiau is fesul gosodiad sydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r preswylydd.

4.1.10. O brofiad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gyda chynllun tebyg, roedd y gosodwyr a lwyddodd yn y tendro yn yr ocsiwn gwrthdro i gyd yn lleol i ranbarth de Cymru. Roedd eu hagosrwydd at y gwaith, yn ogystal â bod yn gyfarwydd â'r ardal, yn golygu eu bod yn gallu cynnig cyfraddau cystadleuol o'i gymharu â gosodwyr y tu allan i Gymru. Yn ogystal, fe wnaeth grwpio'r gwaith greu 40 o swyddi newydd ychwanegol yn y rhanbarth ac rydym yn gobeithio efelychu hyn fel rhan o'r Cynllun yng ngogledd Cymru. Trwy gefnogi'r cynnydd mewn swyddi gosod, bydd y rhaglen hefyd yn gwella gwytnwch cyflenwi cysylltiedig gyda phob gosodwr yn dod â'u cadwyn gyflenwi eu hunain i gefnogi'r prosiect, megis darparu sgaffaldiau.

4.1.11. Mae'r rhaglen yn ymyrraeth strategol gan Uchelgais Gogledd Cymru ac nid yw'n rhan o Gynllun Twf Gogledd Cymru. Caiff amser ac adnoddau swyddog ei ariannu drwy'r Cyllid Ynni Strategol Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru i Uchelgais Gogledd Cymru. Mae cynllun tebyg eisoes wedi'i gynnal dros y ddwy flynedd ddiwethaf ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac mae gwaith yn mynd rhagddo gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y De Orllewin a Thyfu Canolbarth Cymru (Growing Mid Wales). Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi bod mewn cysylltiad â SPEN i'w cynghori ar y prosiect arfaethedig. Nid yw SPEN wedi codi unrhyw wrthwynebiadau i gynhyrchu 1.4MW yn ychwanegol y gellid ei ychwanegu at y grid ledled gogledd Cymru o ganlyniad i'r prosiect, ac yn gyffredinol maent yn cefnogi gwella hyblygrwydd y cyflenwad yn y rhanbarth.

4.1.12. Mae'r gwaith o gymryd rhan yn y rhaglen yn cael ei ffurfioli drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a phob awdurdod lleol.

| Awdurdod Lleol | Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | *7/09/2026* |
| Cyngor Gwynedd | 26/08/2026 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | *18/09/2026* |
| Cyngor Sir Ddinbych | 25/09/2026 |
| Cyngor Sir y Fflint | 27/08/2026 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 28/08/2026 |

4.1.13 Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r prosiect ac wedi datgan 'Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig gan ei fod yn gwbl gyson â chyflawni Cynlluniau Ynni Ardal Leol ac yn cydnabod rôl awdurdodau lleol fel gwneuthurwyr lleoedd sydd â rôl ehangach wrth alluogi eraill i gyflawni'r cynlluniau hyn. Mae'r rhaglen yn cyfrannu at ein polisi ar gynyddu ynni adnewyddadwy mewn perchnogaeth leol, gan roi mwy o reolaeth dros ynni yn nwylo dinasyddion Cymru. Mae hefyd yn cyd-fynd yn agos â'n polisi ar ddatblygu economaidd, lle mae cyflawni yn gwneud y defnydd mwyaf o osodwyr o Gymru, gan greu swyddi da gyda chwmnïau lleol.'

**4.2. Amserlenni Rhaglenni**

| Gweithgaredd | Dyddiadau Targed |
|---|---|
| Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol | Mai - Gorffennaf |
| Cymeradwyaeth Awdurdod Lleol (MoUs) | Awst - Medi |
| Hysbysiad ymgysylltu â'r farchnad | Medi |
| Hysbysiad Caffael Cyhoeddus (PPN) | Medi - Hydref |
| Proses dendro a chaffael cyflenwyr (os oes angen, yn dilyn PPN ac ymgysylltu â'r farchnad) | Hydref - Tachwedd |
| Cytuno ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) | Tachwedd |
| Cychwyn y prosiect | Tachwedd / Rhagfyr |

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae ffrwd waith Rhaglen Mabwysiadu Ynni Adnewyddadwy yn y Cartref yn cael ei gwneud drwy'r gwaith Ynni Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi amser swyddfa i ddatblygu a rhedeg y cynllun. Nid oes cyfraniad ariannol gan Uchelgais Gogledd Cymru.

5.2. Gofynnir i Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan dalu ffi rhwng £4,500 a £10,500 yn dibynnu ar nifer y tai cymwys yn yr Awdurdod Lleol (am ragor o fanylion gweler Atodiad A).

5.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn oddeutu £82.50 yn ôl gan y cyflenwr am bob tŷ sy'n cofrestru ac yn talu am osodiad.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gyda phob un o'r chwe awdurdod lleol.

6.2. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi'i ddrafftio ac mae'n barod i'w ddosbarthu, os cymeradwyir y cynllun.

6.3. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ymgymryd â'r gwaith caffael ar gyfer y cynllun ac yn rheoli'r gwaith cyflenwi drwy'r cyflenwr llwyddiannus.

6.4. Prif effaith gyfreithiol y penderfyniad yw awdurdodi cynnydd y rhaglen i fewn i gaffael a'r trefniadau contractio dilynol sydd eu hangen i ddarparu'r rhaglen. Rhaid i'r caffael gael ei wneud yn unol â'r ddeddfwriaeth brynu nwyddau berthnasol a Rheolau Gweithdrefn Contract CJC. Rhaid i'r trefniadau contractio adlewyrchu cyfrifoldebau a chyfrifoldeb y partïon yn briodol.

---

DOGFEN GEFNDIR (Rhaid gofyn am gopi):

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhaglen Mabwysiadu Ynni Adnewyddadwy yn y Cartref

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Nid oes gen i wrthwynebiad i'r penderfyniadau a geisir. Dylid cadarnhau trefniadau caffael, contractio ac diogelu data fel rhan i weithredu'r rhaglen."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid oes disgwyl cyfraniad ariannol gan Uchelgais Gogledd Cymru ar gyfer y rhaglen yma, a nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

2 Hydref 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru 2025-26 |
| AWDUR: | Cath Morris-Roberts, Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol Dros Dro |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2025-26.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-Bwyllgor yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025–26, gan nodi ei fod eisoes wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel y nodir yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ystod 2025-26 i gefnogi datblygu sgiliau, cynllunio'r gweithlu a chyflogadwyedd ledled Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sut mae'r Bartneriaeth wedi gweithio gyda chyflogwyr gan gynnwys busnesau bach a chanolig, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau addysg, Llywodraeth Cymru, Medr a phartneriaid rhanbarthol i sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau yn cyd-fynd â galw'r farchnad lafur yn awr ac yn y dyfodol a blaenoriaethau economaidd rhanbarthol.

4.2. Mae'r adroddiad yn nodi cynnydd yn erbyn tair blaenoriaeth strategol y Bartneriaeth: Galluogi a Grymuso Cyflogwyr; Galluogi a Grymuso Unigolion; a Gwella Sut y Darperir Cefnogaeth a Gwneud y Cysylltiadau. Ymhlith y cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn y mae:

- Datblygu Strategaeth Sgiliau Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam a datblygu'r Rhaglen Sgiliau Parth Buddsoddi a arweiniodd at gymeradwyo £12 miliwn o fuddsoddiad ar gyfer prosiectau sgiliau yng Ngholeg Cambria a Phrifysgol Wrecsam.
- Darparu gwybodaeth am y farchnad lafur a chymorth cynllunio'r gweithlu ar gyfer prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru a datblygiadau seilwaith rhanbarthol mawr eraill.
- Gwell ymgysylltu â chyflogwyr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig ledled Gogledd Cymru drwy grwpiau clwstwr sector, digwyddiadau busnes, gweithgareddau cynllunio'r gweithlu a Phorth Sgiliau Gogledd Cymru, gan helpu i lywio cynllunio sgiliau rhanbarthol a datblygu'r gweithlu yn y dyfodol.

- Cyflawni Cynllun Cyflawni Sero Net Gogledd Cymru drwy gyfrannu at ddatblygu Cynllun Gweithredu Sgiliau Ynni Glân rhanbarthol, arwain gweithgarwch sgiliau ar draws ynni adnewyddadwy, gwynt y môr, hydrogen, dal carbon, adeiladu gwyrdd a'r sector niwclear, a chefnogi ymgysylltu rhanbarthol drwy'r Gynhadledd Twf Adnewyddadwy, Cynhadledd Ynni Adnewyddadwy ac Uwchgynhadledd Cadwyn Gyflenwi HyNet.
- Datblygu ymhellach Porth Sgiliau Gogledd Cymru, a ddenodd dros 11,000 o ddefnyddwyr newydd yn ystod y flwyddyn ac a barhaodd i ddarparu mynediad at wybodaeth am yrfaoedd, cyfleoedd hyfforddi, swyddi gwag prentisiaethau a gwybodaeth am y farchnad lafur.
- Datblygu Pecynnau Cymorth Llwybr Sgiliau Digidol ar gyfer cyflogwyr ac unigolion i wella ymwybyddiaeth o ddarpariaeth sgiliau digidol a llwybrau dilyniant.
- Cefnogi mentrau cyflogaeth cynhwysol drwy gydweithio â CEF Berwyn, Cysylltu â Gwaith, Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru a rhaglenni cyflogadwyedd eraill.
- Cynhyrchu'r Adroddiad Mewnwelediadau Ieuenctid i lywio gweithgarwch cyfathrebu, hyrwyddo sgiliau a gyrfaoedd yn y dyfodol wedi'i anelu at bobl ifanc.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo’r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r goblygiadau cyfreithiol yn gyfyngedig. Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ar gyfer 2025–26. Nid yw cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ei hun yn creu unrhyw ymrwymiad ariannol, cytundebol neu gyfreithiol arall newydd.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru 2025-26 |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Mae'r argymhelliad yn gyson â rôl yr Is-bwyllgor wrth ystyried gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership























# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2025/26

**rspnorth.wales**

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL YN SAESNEG HEFYD.
THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN ENGLISH.

# Cynnwys

Bydd y Cynllun yn cael ei lywio gan wybodaeth y farchnad lafur, ymgysylltu â chyflogwyr a chydweithio'n helaeth â phartneriaid, gan sicrhau bod blaenoriaethau rhanbarthol yn cyd-fynd â heriau cyfredol y gweithlu a chyfleoedd economaidd yn y dyfodol. Bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi ar gefnogi sectorau y disgwylir iddynt brofi twf sylweddol, gan gynnwys gweithgynhyrchu uwch, ynni adnewyddadwy, adeiladu, digidol, iechyd a gofal cymdeithasol, a thechnolegau ynni glân newydd.

Bydd y Cynllun hefyd yn nodi camau gweithredu i gryfhau gwytnwch y gweithlu, cefnogi cynhwysiant, gwella llwybrau dilyniant a helpu cyflogwyr i gael mynediad at y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer twf yn y dyfodol. Wrth i fuddsoddiadau rhanbarthol mawr barhau i ddatblygu, bydd y Cynllun yn darparu fframwaith a rennir i bartneriaid gydlynu gweithgarwch, gwneud y mwyaf o gyfleoedd a mynd i'r afael â heriau'r gweithlu ar y cyd.

Nod y Bartneriaeth yw lansio Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2026-2029 yn hydref 2026, gan ddarparu sail dystiolaeth wedi'i hadnewyddu, blaenoriaethau clir a chyd-weledigaeth ar gyfer datblygu'r gweithlu ledled y rhanbarth. Bydd cyflawni'r Cynllun yn cael ei gefnogi drwy rwydweithiau helaeth yr RSP, gan gynnwys cyflogwyr, busnesau bach a chanolig, clystyrau sector, aelodau bwrdd, darparwyr addysg a hyfforddiant, awdurdodau lleol, Medr, Llywodraeth Cymru a phartneriaid strategol eraill. Drwy harneisio'r partneriaethau hyn a chryfhau cydweithio ar draws y rhanbarth, bydd yr RSP yn ysgogi gweithredu ar y cyd yn erbyn blaenoriaethau a rennir ac yn helpu i sicrhau bod gan ogledd Cymru y sgiliau, y piblinellau talent a'r capasiti gweithlu sydd eu hangen i gefnogi twf economaidd a buddsoddiad cynaliadwy dros y tair blynedd nesaf.








# Cysylltu â'r Tîm



**Sian Lloyd Roberts**
Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol



**Catherine Morris-Roberts**
Uwch Swyddog Cyflawni Sgiliau



**Rees Brown**
Rheolwr Prosiect Porth Sgiliau



**Angharad Evans**
Rheolwr Prosiect Sgiliau a Chyflogadwyedd

rspnorth.wales
info@rspnorth.wales
@SkillsNWales
PSR Gogledd Cymru - North Wales RSP

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

02 Hydref, 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Y Gronfa Twf Lleol yng Ngogledd Cymru – y camau nesaf arfaethedig a chasglu tystiolaeth |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr, Uchelgais Gogledd Cymru<br>Iain Taylor, Rheolwr Rhaglen, Uchelgais Gogledd Cymru |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diweddaru'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar y Gronfa Twf Lleol (LGF), ac i ofyn am gefnogaeth yr Is-bwyllgor i fwrw ymlaen â'r gwaith sydd ei angen i sicrhau cyllid o tua £80 miliwn i ogledd Cymru, am y ddwy flynedd nesaf, gan Lywodraeth Cymru.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-bwyllgor yn nodi'r gofyniad gan Lywodraeth Cymru am Gynllun Twf Rhanbarthol 10 Mlynedd a Chynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Lleol ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 i'w gyflwyno erbyn Ionawr 2027 - i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i ryddhau cyllid o fis Ebrill 2027.

2.2. Bod yr Is-bwyllgor yn gofyn i bob sefydliad partner ymgynghori'n fewnol, nodi a chyflwyno erbyn 30 Hydref 2026 eu blaenoriaethau strategol yn unol â chanllawiau a fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Twf Lleol, gan weithio gyda swyddogion CBC a fydd yn cydlynu'r broses.

2.3. Bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r rhaglen waith arfaethedig fel y nodir yn adrannau 4.5 a 4.6 o'r adroddiad hwn a gofyn i'r Prif Weithredwr sy'n gweithio ochr yn ochr â swyddogion o sefydliadau partner a Llywodraeth Cymru baratoi Cynllun Twf Rhanbarthol interim a cheisio cadarnhad y bydd y dull hwn yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru.

2.4. Bod yr Is-bwyllgor yn nodi y bydd adroddiadau pellach ar y Cynllun Twf Rhanbarthol a Chynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Lleol ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 yn cael eu cyflwyno ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr i sicrhau mewnbwn a chyfarwyddyd gan yr Is-bwyllgor, ochr yn ochr â chanllawiau Llywodraethu Cymru, cyn cyflwyno cynnig terfynol i'w gymeradwyo ym mis Ionawr 2027.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae tua £80 miliwn o gyllid (tua £40 miliwn y flwyddyn) ar gael ar gyfer gogledd Cymru ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 y Gronfa Twf Lleol, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Mae angen y gwaith a amlinellir yn argymhelliad 2.1, 2.2 a 2.3 er mwyn sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i ryddhau cyllid o fis Ebrill 2027 ymlaen.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Cronfa Twf Leol y Llywodraeth (LGF) yn disodli'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Yng Nghymru mae'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cymru drwy ei Gynllun Buddsoddi LGF. Bydd unrhyw gyllid ar ôl hynny yn dibynnu ar Adolygiadau Gwariant yn y dyfodol.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.2. Mae Blwyddyn Ariannol 2026–27 yn flwyddyn pontio. Mae Cyngor Gwynedd yn parhau fel awdurdod lleol arweiniol yng ngogledd Cymru o dan yr hen fodel SPF, gan weithredu o dan gynllun pontio y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Mae gogledd Cymru yn derbyn £33.98m eleni. Mae hyn yn cynnwys £200,000 o refeniw ar gyfer meithrin capasiti’r CBC, a ddarperir yn benodol fel y gall y CBC baratoi cynllun rhanbarthol.

4.3. O 2027-28, bydd Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cyllid yn uniongyrchol i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig drwy lythyrau cynnig grant blynyddol. Yna bydd pob CBC yn arwain ar gynllunio rhanbarthol a dethol portffolio. Dyraniad dangosol gogledd Cymru yw £41.44m yn 2027–28 a £39.92m yn 2028–29. Mae pob blwyddyn yn cynnwys neilltuo cyfalaf ar draws Cymru gyda £5.37m ar gyfer gogledd Cymru. Mae hyn yn rhoi tua 21.5% o gyfanswm Cymru i'r rhanbarth.

4.4. Mae'r dyraniadau hyn yn rai dangosol. Maent yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cytuno ar gynllun rhanbarthol ar gyfer gogledd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cynllun hwnnw nodi gweledigaeth hirdymor, y weledigaeth 10 mlynedd ar gyfer y rhanbarth. Mae'n disgrifio'r dull hwn fel un sy'n adlewyrchu arfer gorau’r OECD ac yn debyg i'r Cynlluniau Twf Lleol sy'n cael eu paratoi yn Lloegr.

4.5 Cynllun Cyflawni Twf Lleol

4.5.1. Rhaid i fuddsoddiad LGF ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 gyd-fynd â thair blaenoriaeth Llywodraeth Cymru: busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol; cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i weithio; a gwella seilwaith rhanbarthol. Mae yna hefyd 8 amcan o fewn y blaenoriaethau hyn (gweler y rhestr lawn yn Atodiad A). Rhaid i'r cynllun LGF esbonio sut mae ymyriadau yn mynd i'r afael â gwahanol anghenion ar draws y rhanbarth, gan gynnwys yr ardaloedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Rhaid iddo hefyd ddangos y bydd cyllid LGF yn trosoli buddsoddiad preifat ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod effaith uniongyrchol, mesuradwy ar gynhyrchiant yn afrealistig. Fodd bynnag, mae'n disgwyl bod "edefyn aur" clir o weithgarwch rhanbarthol i'w flaenoriaethau ar gyfer twf cynhyrchiant ac ar gyfer ardaloedd sydd ar ôl i ddal i fyny.

4.5.2. Yn ystod mis Hydref rydym yn cynnig 'galwad am dystiolaeth' 4 wythnos gan sefydliadau partner, gan ofyn i bob partner nodi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer lleihau bylchau cynhyrchiant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn ardaloedd o amddifadedd a gwledigrwydd ar draws y rhanbarth, a sut mae eu cynigion ar gyfer ymyrraeth yn cyd-fynd â fframwaith Llywodraeth Cymru. Bydd y CBC yn cydlynu'r broses hon ac yn dod â'r allbynnau i'r Is-bwyllgor i'w hadolygu ym mis Tachwedd. Rydym yn rhagweld y bydd angen rhagor o waith ymgysylltu wedyn i fireinio a datblygu cynigion ymhellach.

4.5.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a thryloywder. Rhaid i unrhyw gynlluniau a gynhyrchir hefyd gael eu datblygu gyda chyrff sy'n cynrychioli busnes, partneriaid cymdeithasol a'r trydydd sector, addysg uwch ac addysg bellach, a chyllidwyr a sefydliadau cyllid. Ochr yn ochr â nodi blaenoriaethau strategol gyda phartneriaid, bydd angen i ni gytuno ar raglen ymgysylltu â rhanddeiliaid yng ngogledd Cymru. Er enghraifft, un opsiwn fyddai gofyn i'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol gydlynu pecyn sgiliau o ymyriadau dros y rhanbarth, gan weithio ar ran partneriaid. Yn yr un modd, gellid cydlynu pecynnau cymorth busnes yn rhanbarthol neu'n is-ranbarthol i sicrhau cysondeb y cynnig, gan gadw cyflenwi yn lleol. Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu harchwilio gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid yn ystod mis Hydref.

## 4.6. Cynllun Twf Rhanbarthol

4.6.1. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig osod cynllun sy'n dadansoddi cryfderau, cyfleoedd ac anghenion hirdymor, gan osod gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer twf. Dylai'r weledigaeth honno gwmpasu pob cyfle twf sylweddol, nid cronfeydd LGF yn unig. Ar gyfer gogledd Cymru, mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Twf, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, Porthladd Rhydd Ynys Môn, cynigion datblygu niwclear Gwynedd, Parth Twf AI a gwynt ar y môr. Yna rhaid iddo ddangos sut y bydd buddsoddiad LGF yn mynd i'r afael â'r bylchau ac yn ychwanegu gwerth o fewn y darlun ehangach hwnnw. Rhaid iddo hefyd ddangos bod yr LGF yn ategu endidau a rhaglenni Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU megis Banc Datblygu Cymru, Busnes Cymru, Medr, UKRI, y Gronfa Gyfoeth Genedlaethol a Banc Busnes Prydain.

4.6.2. O ystyried yr amserlen gywasgedig, rydym yn cynnig datblygu Cynllun Twf Rhanbarthol dros dro o'r enw 'Tuag at Strategaeth Twf 10 Mlynedd' gan ei baratoi ym mis Tachwedd yn dilyn ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid rhanbarthol, a'i ddatblygu ymhellach gyda mewnbwn yr Is-bwyllgor ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Bydd hyn yn anelu at osod y sylfeini allweddol ar gyfer y Cynllun Twf 10 Mlynedd. Pe bai'r Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r dull hwn, byddai'r CBC yn ceisio cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod y dull hwn yn bodloni eu gofyniad i sicrhau Cyllid Twf Lleol ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3. Byddai'r dull yn caniatáu i'r Cynllun Twf 10 Mlynedd ffurfiol gael ei ddatblygu, ymgynghori'n ddemocrataidd arno a'i gymeradwyo'n fanwl ar ôl yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2027.

## 5. CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL A'R AMSERLEN

5.1. Gofynnir i'r Is-bwyllgor nodi'r gofynion ac i gymeradwyo'r amserlen arfaethedig. Yn benodol, gofynnir iddo nodi dau bwynt:

- Yn gyntaf, mae'r Cynllun Twf 10 mlynedd a'r Cynllun Cyflawni LGF yn cael eu datblygu gyda'i gilydd, fel bod buddsoddiad LGF yn cyfrannu'n glir at y weledigaeth ranbarthol ehangach.
- Yn ail, mae'r amser cymeradwyo ym mis Ionawr yn hanfodol i sicrhau dyraniad 2027-28.

| Dyddiad | Carreg Filltir |
|---|---|
| Hydref 2026 | Ymgysylltu â'r chwe awdurdod lleol, a phartneriaid strategol, i adnabod blaenoriaethau strategol a chytuno ar ddull ar gyfer blwyddyn 2/3 |
| Tachwedd – Rhagfyr 2026 | Llunio RGP a Chynllun Cyflawni LGF wedi eu paratoi a'u diwygio. |
| Ionawr 2027 | Cymeradwyaeth CBC o'r RGP a'r Cynllun Cyflawni |
| Chwefror – Mawrth 2027 | Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn cytuno ar y cynllun; Cynnig grant 2027–28 |
| Ebrill 2027 | Gwaith o gyflawni LGF dan arweiniad CBC yn dechrau |
| 2027–28 ymlaen | Adolygiadau chwe mis gan Lywodraeth Cymru; mae'r cynllun 10 mlynedd yn cael ei adolygu a'i adnewyddu ochr yn ochr ag Adolygiadau Gwariant y DU yn y dyfodol |

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Mae'r CBC wedi derbyn dyfarniad grant o £200,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2026/27 i gynhyrchu'r Cynllun Twf Rhanbarthol a chefnogi'r trefniadau meithrin capasiti a phartneriaeth sydd eu hangen er mwyn paratoi i'w weithredu o fis Ebrill 2027 ymlaen.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae'r goblygiadau cyfreithiol ar hyn o bryd yn gyfyngedig. Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i symud ymlaen â'r gwaith paratoi ar y Cynllun Twf Rhanbarthol a Chynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Lleol ac nid yw'n cymeradwyo'r cynlluniau terfynol, prosiectau unigol na dyfarniadau cyllid. Bydd derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, cymeradwyo cynlluniau ac wedyn penderfyniadau dilynol ar brosiectau neu gyllid angen yr awdurdod priodol sy'n gwneud penderfyniadau a chyngor cyfreithiol ac ariannol pellach.

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r argymhellion yn darparu sail briodol i gynyddu'r gwaith paratoawl sydd ei angen i ddatblygu a chyflawni Cronfa'r Cynllun Twf Lleol. Nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud ar hyn o bryd mewn perthynas â'r cynlluniau terfynol. prosiectau unigol neu ddyfarnu ariannol. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniadau a geisir."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae'r grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys mewn ystyriaethau cyllidebol ar gyfer 2026/27. O safbwynt ariannol nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniadau a geisir; mae'r adroddiad hwn yn un o nifer o gamau i'w cymryd wrth ddatblygu'r Gronfa Twf Leol a'r cynllun twf rhanbarthol."

Atodiad A – Blaenoriaethau ac Amcanion LGF Llywodraeth Cymru

[Cynllun Buddsoddi Twf Lleol – Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru]

**Blaenoriaeth 1: Busnesau yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol**
Amcan 1.1: Creu a thwf busnesau newydd potensial uchel, 'spinouts' a mentrau cymdeithasol - gan gynnwys o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
Amcan 1.2: Cynyddu buddsoddiad cyfalaf mewn busnesau potensial twf uchel i gefnogi twf cynhyrchiant
Amcan 1.3: Cynyddu lefelau buddsoddiad mewn capasiti Ymchwil, Datblygiad ac Arloesedd, camfanteisio a lledaenu mewn busnesau a sefydliadau ymchwil

**Blaenoriaeth 2: Cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i weithio**
Amcan 2.1: Gostwng lefelau anweithgarwch economaidd, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, pobl anabl, merched a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig
Amcan 2.2: Gwella sgiliau'r gweithlu trwy addysg a hyfforddiant hyblyg, sy'n seiliedig ar alw sy'n cyd-fynd ag anghenion sectorau twf uchel a rhanbarthol pwysig

**Blaenoriaeth 3: Gwella seilwaith rhanbarthol**
Amcan 3.1: Datgloi buddsoddiad mewn safleoedd ac adeiladau strategol
Amcan 3.2: Buddsoddiad cyfalaf wedi'i alinio â Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol
Amcan 3.3: Buddsoddiad cyfalaf wedi'i alinio â chynlluniau / strategaethau ynni rhanbarthol

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

2 Hydref 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam – Cymeradwyaethau Prosiect a Dyraniadau |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro<br>Iain Taylor, AMION Consulting<br>Milly Cross, Rheolwr Rhaglen y Parth Buddsoddi |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddaraf i Is-bwyllgor Lles Economaidd y CBC ar gyflawni Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

1.2. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i'r prosiectau a'r trefniadau partneriaeth canlynol:

- Rhaglen Grantiau SME yn Sir y Fflint, £2.5m
- Rhaglen Grantiau SME yn Wrecsam, £2.6m
- Rhaglen Trawsnewid Bysiau ar draws Sir y Fflint a Wrecsam, £17m
- Costau Datblygu Prosiect Trafnidiaeth Cymru, £0.05m
- Prosiect Seilwaith Porth Glannau Dyfrdwy, £3.5m
- HyLine Gogledd, £0.5m
- MASS Spectrometry Limited, £0.25m

1.3. Mae'r cais am arian ar gyfer y Rhaglenni Grant SME ar lefel sy'n talu'r gwariant ym Mlwyddyn 2 (y flwyddyn ariannol gyfredol) a Blwyddyn 3. Mae'r dyraniadau eraill a restrir uchod wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 2 a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd £14.3m ym mis Mawrth 2026 ar gyfer costau ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Mae angen rhai addasiadau i ddyraniadau cyfalaf a refeniw Blwyddyn 2 i gefnogi'r dyraniadau hyn, ond mae pob un o fewn y goddefiannau ac wedi'u cytuno mewn egwyddor gyda Chynghorau Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd y broses adolygu a chymeradwyo ADP Blwyddyn 3 yn codi unrhyw newidiadau.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, cymeradwyo'r dyraniad o £2.5m (cyfalaf a refeniw) i Gyngor Sir y Fflint ar gyfer Rhaglen Grantiau SME ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Chyngor Sir y Fflint.

2.2. Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, cymeradwyo'r dyraniad o £2.6m (cyfalaf a refeniw) i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer Rhaglen Grantiau SME ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

2.3. Cymeradwyo'r cynnig gan Drafnidiaeth Cymru i fuddsoddi £10m o gronfeydd refeniw y Parth Buddsoddi yn Sir y Fflint a £7m o gronfeydd refeniw y Parth Buddsoddi yn Wrecsam i drawsnewid gwasanaethau bysiau i leoliadau cyflogaeth a sgiliau allweddol.

2.4. Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Chyngor Sir y Fflint am £10m o Refeniw Parth Buddsoddi i gefnogi'r Prosiect Trawsnewid Bysiau.

2.5. Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am £7m o Refeniw Parth Buddsoddi i gefnogi'r Prosiect Trawsnewid Bysiau.

2.6. Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Thrafnidiaeth Cymru am £50,007 o Refeniw Parth Buddsoddi i gefnogi'r Prosiect Seilwaith Bysiau.

2.7. Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal a bod 31ten yn cwblhau'r Adolygiad Sicrwydd Achos Busnes, cymeradwyo'r dyraniad o £3.5m (cyfalaf) i Pochin Goodman Northern Gateway Limited i gefnogi prosiect seilwaith i ddatgloi tir datblygu tu mewn i Safle Treth Parth Buddsoddi Porth Glannau Dyfrdwy ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Pochin Goodman Northern Gateway Limited.

2.8. Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, cymeradwyo'r dyraniad o £0.5m (refeniw) i Wales and West Utilities i gefnogi'r gwaith cyn-ddatblygu i ddatgloi buddsoddiad yn y dyfodol yn y prosiect Hyline Gogledd ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Wales and West Utilities Limited.

2.9. Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, cymeradwyo'r dyraniad o £0.25m (cyfalaf) i MAAS Spectrometry Limited i gefnogi prosiect Ymchwil a Datblygu, sy'n ffurfio rhan o Raglen Arloesi'r Parth Buddsoddi, i greu peiriant sbectrometreg màs newydd i ddangos sut mae technoleg newydd yn cael ei gymhwyso i gefnogi twf gweithgynhyrchu a chyfleoedd allforio ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda MAAS Spectrometry Limited.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

### 3.1. Cefndir y Rhaglen Grantiau SME

Mae'r Parth Buddsoddi (IZ) yn gweithredu drwy Gytundeb Rhwng Awdurdodau'r CBC, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r cytundebau hyn yn caniatáu paratoi a chymeradwyo Cynlluniau Cyflawni Blynyddol (ADP). Caiff y Cynlluniau Cyflawni Blynyddol eu paratoi gan Weithgor Parth Buddsoddi (y ddau Arweinydd awdurdod lleol Parth Buddsoddi), eu cymeradwyo gan y CBC ac yna eu cymeradwyo gan LlC ac a Llywodraeth y DU.

Bydd ADP Blwyddyn 2 yn cael ei bennu gan broses adolygu a reolir gan LlC a Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2026 a bydd yn cadarnhau gwerth y grant IZ ar gyfer Blwyddyn 2 (y flwyddyn ariannol bresennol). Mae cymeradwyaeth yr ADP ar gyfer "dyraniadau" cyllid ac nid yw'n darparu "cymeradwyaeth prosiect". Felly, mae'n rhaid ceisio cymeradwyaeth y CBC (fel mae wedi'i ddirprwyo i'r IBLlE) i achosion busnes prosiect a sicrhau'r awdurdod gan y CBC i gwblhau'r broses sicrwydd ac ymrwymo i gytundebau ariannu.

Mae'r Cytundeb IAA yn disgrifio'r bwriad i bartneriaid awdurdod lleol yr IZ gyflwyno'r Rhaglen Grantiau SME ond nid yw'n nodi sut y dylid rheoli'r rhaglen hon o ran cyflawni. Pwrpas yr adroddiad hwn yw sicrhau'r awdurdod i ymrwymo i Gytundebau Arian Grant gyda Chynghorau Sir y Fflint a Wrecsam sy'n eu galluogi i reoli'r gwaith o gyflawni'r rhaglenni SME a reolir ganddynt fel y cyrff atebol am y rhaglenni hynny. Mae'n caniatáu i'r ddau Gyngor hawlio gwerth llawn y dyfarniad prosiect SME ar y pwynt y caiff y grant ei gynnig i'r buddiolwr. Felly, mae'r Cytundeb Cyllido Grant yn caniatáu am hawliadau yn seiliedig ar wariant a gafwyd a gwariant disgwyliedig.

Mae DWF wedi'i benodi i gynnal Asesiad Rheoli Cymhorthdal ar gyfer y dyraniadau hyn i Gynghorau Sir y Fflint a Wrecsam.

3.2. **Cefndir Trawsnewid Bysiau**

Mae'r gwaith o ddatblygu prosiect trafnidiaeth bws gyda'r thema Seilwaith IZ wedi cael ei arwain gan Drafnidiaeth Cymru mewn partneriaeth agos â'r ddau dîm trafnidiaeth yn yr awdurdodau lleol ac aelodau'r CBC. Ystyrir ei bod yn hanfodol, mewn ymateb i'r buddsoddiad IZ i dyfu safleoedd cyflogaeth allweddol yn Sir y Fflint a Wrecsam ac ehangu'r ddarpariaeth sgiliau ar safleoedd allweddol, y dylid gwella mynediad i'r cyhoedd. Bydd y gwelliannau o ran llwybrau, amserlen (yn cyd-fynd â shifftiau) ac ansawdd bysiau yn ysgogi'r defnydd ac yn caniatáu i fwy o bobl gael mynediad at sgiliau gweithgynhyrchu a chyflogaeth, gyda chefnogaeth y rhaglen IZ.

Penododd Trafnidiaeth Cymru WSP i baratoi Achos Busnes i gyfiawnhau £17m o fuddsoddiad IZ mewn gwasanaethau bysiau ar draws Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r llwybrau a'r gwasanaethau penodol wedi'u cynllunio a'u cymeradwyo gan bob Aelod a thîm Arweiniol Trafnidiaeth y ddau Awdurdod Lleol. Cytunwyd y byddai un achos busnes, a baratowyd gan TfW, yn sail i sicrhau'r buddsoddiad IZ, ond y byddai pob awdurdod lleol yn gyfrifol am gaffael y gwasanaethau yn lleol. Felly, mae gennym gymeradwyaeth i'r Achos Busnes a dwy gymeradwyaeth arall i'r awdurdod ymrwymo i ddau Gytundeb Arian Grant i ganiatáu i Sir y Fflint a Wrecsam ymestyn sgôp y trefniadau presennol neu gaffael gwasanaethau newydd. Yn y ddwy ardal, bydd y gwasanaethau newydd yn cefnogi'r trawsnewidiad ehangach i 'Rwydwaith Masnachfraint'.

Mae Crynodeb Gweithredol yr Achos Busnes ar gael yn Atodiad 1. Sicrhawyd yr Achos Busnes gan ymgynghoriaeth allanol, 31ten, sydd wedi rhoi cadarnhad yn dilyn adolygiad helaeth (gan gynnwys adborth ac ail-gyflwyno dogfen), y gellir cymeradwyo'r prosiect.

Mae DWF wedi'u penodi i ymgymryd â'r Asesiad Rheoli Cymhorthdal ar gyfer y prosiect hwn.

3.3. **Cyllid Datblygu Prosiect ar gyfer Trafnidiaeth Cymru**

Mae gan y Parth Buddsoddi ddyraniadau ar gyfer "Astudiaethau Dichonoldeb" gyda'r bwriad o gefnogi datblygiad prosiectau allweddol i'w cefnogi gan y rhaglen IZ neu gronfeydd eraill.

Cymerodd datblygiad yr Achos Busnes Trawsnewid Bysiau, a grynhoir yn Atodiad 1, fwy o amser nag a gyllidebwyd i'w gytuno a'i sicrhau. Mae Trafnidiaeth Cymru yn gofyn am £4,452 i gefnogi'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â pharatoi achos busnes cytunedig.

Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn arwain ar ddatblygu Achos Busnes Amlinellol mewn buddsoddiad cyfalaf yn y rhwydwaith bysiau. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, mae Trafnidiaeth Cymru yn gofyn am £45,555.

Cyfanswm y refeniw y gofynnir amdano yw £50,007. Bydd hwn yn cael ei dynnu i lawr o'r cyllid astudiaethau'r Parth Buddsoddi a'r elfen refeniw o'r dyraniad cyfalaf i'r bws. Bydd gofyn i DWF gadarnhau a oes angen Asesiad Rheoli Cymhorthdal a'i gwblhau os oes angen.

3.4. **Prosiect Seilwaith Porth Glannau Dyfrdwy**

Mae Pochin Goodman Northern Gateway Limited yn berchen ar dir o fewn Safle Porth Glannau Dyfrdwy sydd y tu ôl i'r safle tu cefn i ITC a Leftfield Deeside. Mae gan y tir y potensial i gefnogi dros 1,100 o swyddi a £2.4m o GVA ychwanegol net ond mae angen cymorth grant i ariannu costau seilwaith ymlaen llaw.

Mae gan y prosiect ddyraniad cyfalaf o £3.5m yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Parth Buddsoddi, sy'n ddigon i gefnogi'r swm gofynnol o £3.5m.

Mae Aspinall Verdi wedi paratoi Achos Busnes a 31ten wedi'i Sicrhau. Mae'r broses sicrwydd wedi cadarnhau achos busnes derbyniol gydag un mater sy'n weddill o fewn yr Achos Economaidd sy'n cael ei ddatrys gan ymgynghoriaeth economeg trydydd parti.

Mae angen cymeradwyaeth amodol ar yr agwedd hon o'r achos busnes ar y prosiect. Mae'r ymgeisydd wedi sicrhau Asesiad Rheoli Cymhorthdal gan DWF LLP. Bydd y CBC yn ceisio dibynnu ar yr Asesiad hwn neu'n ymgymryd â'i Asesiad Cymhorthdal ei hun.

Fel y gall y prosiect wneud cynnydd cyflym ar y safle yn ddiweddarach eleni, gofynnir am gymeradwyaeth nawr, yn amodol ar ddatrys y broses Sicrwydd ac Asesiad Rheoli Cymhorthdal y gall y CBC ddibynnu arno.

3.5. **Prosiect Hyline Gogledd**

Cyflwynodd Wales and West Utilities y prosiect Hyline Gogledd i'r Parth Buddsoddi, yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu a gefnogwyd gan raglen clwstwr datgarboneiddio NEWID a'n diddordeb mewn archwilio sut y gallai sero net fod yn sbardun cadarnhaol ar gyfer datblygiad economaidd a buddsoddiad mewn gweithgynhyrchu uwch yng Ngogledd Cymru. Cyflwynwyd y prosiect mewn Templed IZ pwrpasol ar gyfer prosiectau Ymchwil a Datblygu a'i rannu â Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru i'w drafod a chael eu mewnbwn. Roedd y Bwrdd Arloesi yn cefnogi'r prosiect ac roedd consenswS y dylid ei ystyried i'w gymeradwyo gan yr IBLlE.
Byddai'r prosiect yn gwneud cyfraniad sylweddol at amcanion sero net y Parth Buddsoddi ac yn cefnogi amcanion NEWID, Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy yn ogystal â chefnogi Rhaglen Datgarboneiddio'r Parth Buddsoddi dan arweiniad Diwydiant Sero Net Cymru.

Mae gan y prosiect ddyraniad yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol y cytunwyd arno ac mae'n destun Asesiad Rheoli Cymhorthdal.

3.6. **MAAS Spectrometry Limited**

Mae MAAS Spectrometry Limited yn fusnes gweithgynhyrchu uwch yn Wrecsam sy'n creu dyfeisiau Sbectrometreg Màs o'r radd flaenaf ar gyfer gwahanol ddefnyddiau yn rhyngwladol. Mae gwerth y grant y gofynnwyd amdano a'r ffocws ar ymchwil a datblygu yn fwy na sgôp yr hyn oedd y Rhaglen Grant SME bresennol yn caniatáu i Wrecsam ei ddyrannu, felly mae'r cais wedi'i brosesu gan Uchelgais Gogledd Cymru, yn unol â'r darpariaethau yn y Cytundeb Rhyng-Awdurdod.

Mae'r Prosiect wedi'i egluro mewn Ffurflen Gais Prosiect Ymchwil a Datblygu ac fe'i cyflwynwyd i Fwrdd Arloesi Gogledd Cymru i'w adolygu a chael ei sylwadau. Roedd y Bwrdd Arloesi yn cefnogi cyflwyno'r prosiect i'r IBLlE am benderfyniad ariannu. Mae'r prosiect yn barod i ddechrau unwaith y bydd Cytundeb Cyllido Grant ac Asesiad Rheoli Cymhorthdal wedi'u paratoi.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 4.1. Trosolwg o'r Prosiectau

#### 4.1.1 Rhaglenni Grant SME

Mae Sir y Fflint a Wrecsam wedi bod yn hyrwyddo Grantiau SME ers dechrau 2026.  Ar y cyfan, mae'r ymateb wedi bod yn ardderchog. Bydd y Cytundebau Arian Grant yn caniatáu taliadau i'r ddau Gyngor ar gyfer dyfarniadau sydd wedi'u gwneud hyd yma a fel bod modd rhoi adnoddau i rowndiau ariannu yn y dyfodol.  Ar hyn o bryd mae grantiau wedi'u cyfyngu i brosiectau sy'n cefnogi achrediad a buddsoddiad mewn gweithgynhyrchu.

#### 4.1.2. Rhaglen Grantiau SME Wrecsam

Mae Cynllun Grantiau Gweithgynhyrchu SME Wrecsam yn rhan o thema Cymorth Busnes Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam. Dyma fydd elfen gyntaf y rhaglen Parth Buddsoddi gaiff ei lansio yn Wrecsam a bydd yn cynnwys grantiau i gefnogi twf busnes yn y Sector Gweithgynhyrchu Uwch, hyd at uchafswm o £100,000 fesul dyfarniad.

Mae'r Cynllun Grantiau Gweithgynhyrchu SME wedi'i ddatblygu drwy gydweithio rhwng y Timau Busnes a Buddsoddi a Rheolwyr Rhaglen y Parth Buddsoddi o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint. Oherwydd natur yr ardal economaidd a'r gadwyn gyflenwi drawsffiniol, mae'n bwysig cael rhaglen grant debyg yn gweithredu yn y ddwy ardal.

Mae'r broses wedi'i llywio gan ymgysylltu â busnesau trwy gydol datblygiad y 5 Porth Parth Buddsoddi, sydd wedi digwydd dros y 18 mis diwethaf. Bydd y grantiau yn cefnogi anghenion allweddol busnesau bach a chanolig yn y sector gweithgynhyrchu ac yn hyrwyddo twf a chynhyrchiant o fewn y busnesau gweithgynhyrchu uwch, tra'n cydymffurfio â chanllawiau technegol Parth Buddsoddi Llywodraeth y DU.

Mae'r Grantiau Gweithgynhyrchu SME wedi'u dylunio i gefnogi pob busnes sy'n gwneud cais i gyflymu twf gweithgynhyrchu, trwy brynu offer gyda chyfalaf, cymorth arbenigol, addasiadau safle gwyrdd ac Ymchwil a Datblygu prosesau newydd. Mae'r grantiau'n cyd-fynd ag amcanion craidd Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam: £1bn mewn buddsoddiad sector preifat a chreu 6000 o swyddi gwerth uchel dros 10 mlynedd yn y sector gweithgynhyrchu uwch ar gyfer y ddau ranbarth.

Bydd Cynllun Grantiau Gweithgynhyrchu SME Wrecsam yn agored i fusnesau sydd wedi'u lleoli ac sy'n gweithredu ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn

meini prawf sy'n cefnogi cyflawni ymyrraeth bolisi Parth Buddsoddi Llywodraeth y DU a Chymru. Er mwyn cael cymaint o hyblygrwydd â phosib, bydd panel ariannu mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gwneud argymhellion ar gyfer dyfarniadau cyllid, i'w cymeradwyo dan awdurdod dirprwyedig. Bydd manylion dyfarniadau llwyddiannus yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol fel adroddiadau gwybodaeth am y cyfnod.

### 4.1.3. Rhaglen Grantiau SME Sir y Fflint

Mae'r Grantiau Gweithgynhyrchu SME yn rhan o elfen Cyllid Hyblyg y Parth Buddsoddi ac fe'u datblygwyd ar y cyd gan dimau Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gan weithio ochr yn ochr â Rheolwyr Rhaglen o'r ddau awdurdod. Mae'r cynllun wedi'i siapio drwy ymgysylltiad cadarn â busnesau, a pherthnasoedd hirsefydlog â gweithgynhyrchwyr lleol, gan sicrhau bod y grantiau'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion blaenoriaeth busnesau bach a chanolig yn y sector ac yn helpu i yrru twf ar draws y rhanbarth.

Nod y Grantiau Gweithgynhyrchu SME yw cyflymu twf busnesau gweithgynhyrchu cymwys. Bydd cymorth ar gael ar gyfer:

1. Cyfalaf i brynu offer er mwyn cefnogi neu wella gallu gweithgynhyrchu busnesau SME.
2. Achrediad ac ardystiad ar gyfer prynu hyfforddiant a/neu gymorth ymgynghori i SME fel y gall gyflawni achrediad neu ardystiad er mwyn gwella mynediad at gyfleoedd cadwyn gyflenwi newydd gyda gweithgynhyrchwyr mwy a gwella trosiant a thwf y busnes.
3. Addasu a datgarboneiddio busnes ar gyfer prynu gwasanaethau ac addasiadau i adeiladau fel y gall busnesau SME drosglwyddo i weithrediadau mwy cynaliadwy.

Bydd y grantiau hyn werth hyd at £100,000 fesul cais a disgwylir i'r busnes gyfrannu o leiaf 30% o gyfanswm cost y prosiect neu'r gost brynu. Mae dyraniad o £3m wedi'i wneud o'r rhaglen Parth Buddsoddi ar gyfer y rhaglen grant hon gyda'r un swm wedi'i ddyrannu ar gyfer rhaglen Wrecsam.

Cynigir bod y Grantiau Gweithgynhyrchu SME yn cael eu rhedeg am gyfnod o dair blynedd ac yna'n cael eu hadolygu a'u gwerthuso yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd o'u heffaith ar y busnesau sy'n cymryd rhan.

### 4.1.4. Trawsnewid Bysiau a Seilwaith

Mae Crynodeb Gweithredol yr Achos Busnes Llawn ar gael yn Atodiad 1.

Mae'r achos busnes hwn yn gofyn am £19.6m o gyllid refeniw dros naw mlynedd i wella gwasanaethau bws sy'n cysylltu trigolion Sir y Fflint a Wrecsam â safleoedd cyflogaeth mawr, yn enwedig Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy (DIP) ac Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam (WIE).

O hyn, byddai £16.96m yn dod o gyllid Parth Buddsoddi (IZ), gyda'r £2.64m sy'n weddill yn dod o arian Rhyddhad Ardrethi Annomestig yn Sir y Fflint. Mae'n ffurfio un llinyn o raglen Parth Buddsoddi 10-mlynedd ehangach gwerth £160m sy'n cefnogi gweithgynhyrchu uwch, ochr yn ochr â sgiliau, cymorth busnes, a buddsoddiad ymchwil a datblygu.

Mae'r achos yn dadlau bod mynediad gwael i gludiant cyhoeddus yn cyfyngu ar gyfleoedd gwaith trigolion, yn culhau'r gronfa lafur sydd ar gael i gyflogwyr, ac yn cynyddu'r ddibyniaeth ar geir gyda thagfeydd ac allyriadau cysylltiedig. Mae'r pecyn arfaethedig yn cwmpasu 27 o wasanaethau a choridorau bws, sy'n cynnwys llwybrau newydd, amlder uwch, ail-amseru, ac

oriau estynedig – sy'n cynrychioli cynnydd o tua 10% mewn cyllid bysiau cyhoeddus ledled Gogledd Cymru.

Mae data amddifadedd a pherchnogaeth ceir yn dangos bod llawer o'r gwelliannau a dargedir yn gwasanaethu cymunedau incwm is, dwysedd uwch sydd â mynediad cyfyngedig at geir - mae'r rhain wedi'u crynhoi yn ninas Wrecsam (gan gynnwys Parc Caia) ac yn fwy gwasgaredig ar hyd afon Dyfrdwy yn Sir y Fflint. Rhagwelir y bydd gwasanaethau gwell yn ehangu'r boblogaeth sydd o fewn taith 60 munud o DIP gan hyd at 38% a WIE hyd at 26%.

Mae modelu galw yn rhagweld y bydd teithiau bws i'r ddau safle hyn yn cynyddu 17% erbyn 2035 o'i gymharu â gwaelodlin "gwneud yr isafswm" – cynnydd o 12% yn DIP a 19% yn WIE – gydag oddeutu 90% o'r teithiau newydd yn cynrychioli newid modd o geir yn hytrach na thwf cyflogaeth pur. Mae buddsoddiad y pen yn uwch yn Wrecsam (£99.86) na Sir y Fflint (£79.90), sy'n adlewyrchu llwybrau hirach, mwy gwasgaredig Sir y Fflint ac felly'r costau uwch sy'n gysylltiedig, a'r potensial is i newid modd.

Mae arfarniad economaidd yn cynhyrchu cymhareb budd-cost o 1.0 ar effeithiau trafnidiaeth craidd yn unig, sy'n codi i 1.3 unwaith y bydd effeithiau ehangach nad ydynt yn rhai trafnidiaeth yn cael eu cynnwys – ynghyd â buddion heb eu meintioli fel cynhyrchiant, twf GVA, a gwelliannau ansawdd bywyd, sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli gwerth uchel am arian. Disgwylir achos busnes cyfalaf ar wahân sy'n cwmpasu seilwaith bysiau (mesurau blaenoriaeth, cyfleusterau i deithwyr) yn ddiweddarach yn 2026.

Bydd Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rheoli cyflawniad hyn gyda'i gilydd, mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru, gan osod contractau cychwynnol yn 2026/27 cyn i'r gwasanaethau drosglwyddo i fasnachfraint bysiau Gogledd Cymru o 2028/29 ymlaen. O ystyried hanes hir y ddau gyngor o reoli contractau bysiau sy'n derbyn cymorth, caiff yr achos ei gyflwyno fel un risg isel. Cytunwyd ar fformat achos busnes un cam gan UGC fel llwybr cymeradwyo cymesur.

### 4.1.5. Seilwaith Glannau Dyfrdwy

Mae Crynodeb Gweithredol yr Achos Busnes ar gael yn Atodiad 2.

Mae Pochin Goodman Northern Gateway Ltd (PGNGL) yn gofyn am £3.5 miliwn gan y Parth Buddsoddi i gyflawni Gwaith Galluogi Hanfodol ym Mhorth Glannau Dyfrdwy, safle cyflogaeth strategol 57 acer gyda chapasiti cyfleustodau cryf. Nod y gwaith yw gwneud y safle yn gwbl barod, fel y gall ddarparu unedau gweithgynhyrchu datblygedig o fewn 12-18 mis. Mae'r Achos Busnes Amlinellol hwn yn adeiladu ar Achos Amlinellol Strategol ym mis Mawrth 2025, a ofynnodd am £3.25m fel rhan o gyfanswm pecyn gwaith o £6.5m; mae'r cais wedi codi i £3.5m oherwydd chwyddiant, gyda phrisiau tendr yn cefnogi'r costau.

Mae Porth Glannau Dyfrdwy wedi'i leoli fel safle gweithgynhyrchu uwch o arwyddocâd cenedlaethol, a chyfeirir ato ym mhrosbectws ffatri Rolls-Royce SMR-MEP. Er gwaethaf diddordeb parhaus yn y farchnad, mae datblygiad wedi stopio oherwydd na all gwerthoedd masnachol rhanbarthol wrthbwyso'r gost uchel ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â chyfleusterau gweithgynhyrchu pwrpasol. Byddai cyllid cyhoeddus ar gyfer seilwaith cynnar - ffyrdd, draenio, cyfleustodau, gwaith daear - yn datrys y bwlch hyfywedd hwn ac yn caniatáu cyflawni Uned 01, gan gataleiddio datblygiad y safle ehangach.

Mae'r OBC yn gosod pedwar amcan: mynd i'r afael â'r prinder gofod gweithgynhyrchu Gradd A (1.15 miliwn troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr), creu cyflogaeth gwerth uchel (1,100 o swyddi parhaol a 110 o swyddi adeiladu), sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol (adeiladu carbon isel, gweithredu sero-net), a sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf posib (egwyddorion GwerthwchiGymru, 15% o wariant lleol, prentisiaethau, cyflog byw go iawn). Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Twf Gogledd Cymru, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar sero net a gweithgynhyrchu uwch, sectorau Strategaeth Ddiwydiannol y DU (awyrofod, niwclear, *semiconductors*), a Chynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint.

Heb ymyrraeth, ni fyddai'r safle'n cael ei ddatblygu oherwydd yr hyn y mae'r OBC yn ei alw'n "methiant marchnad parhaus." Disgwylir i'r gwaith galluogi ddatgloi £43m o fuddsoddiad preifat yng Ngham 1 (gan godi i £110m+ ar draws y cyfnodau diweddarach), 1,100 o swyddi hirdymor, a £2.4m GVA ychwanegol net ym Mlwyddyn 1.

Mae arfarniad economaidd Llyfr Gwyrdd yn adnabod mai gwaith galluogi ar gyfer Uned 01 yw'r opsiwn a ffafrir, gyda Chymhareb Cost-Buddion o 1.79 (gwerth uchel am arian) a Gwerth Cymdeithasol Presennol Net o £6.64m, ochr yn ochr â buddion anariannol megis twf y clwstwr a manteision bioamrywiaeth. Byddai'r broses gyflawni yn defnyddio'r fframwaith GwerthwchiGymru a chontract Opsiwn C NEC4 gyda'r Contractwr wedi'i Gynnwys yn Gynnar.

Yn ariannol, mae'r cais o £3.5 miliwn yn cynrychioli 10% o gyfanswm y costau galluogi, ynghyd â £3.5 miliwn o gyllid preifat cyfatebol yng Ngham 1. Heb gymorth grant, mae elw'r datblygwr yn eistedd ar 2.77% - islaw'r trothwy hyfywedd - ond mae'n codi i 10% gyda'r grant, gan ddatgloi cyllid banc a chymeradwyaeth y bwrdd.

Mae'r prosiect yn cael ei ystyried yn risg isel ac yn gyflawnadwy: sicrhawyd caniatâd cynllunio llawn ym mis Tachwedd 2024, mae'r dull cyflawni yn cynnwys cyd-fenter brofiadol rhwng Goodman/NPL, ac mae'r gwaith galluogi wedi'i raglennu i'w gwblhau erbyn mis Hydref 2027, gyda chefnogaeth trefniadau llywodraethu a thracio buddion.

#### 4.1.6. HyLine Gogledd

Mae HyLine Gogledd yn bib-linell hydrogen sy'n cysylltu i safleoedd diwydiannol pwysig, ynni-ddwys yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam ynghyd â safleoedd ychwanegol ar hyd coridor y llwybr, sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am dros 55% o alw ynni'r rhanbarth.

Mae bron pob un o'r safleoedd hyn yn gyfleusterau gweithgynhyrchu sy'n cwmpasu ystod o ddiwydiannau o weithgynhyrchu papur i gynhyrchu bwyd. Trwy ddarparu llwybr cost-effeithiol i ddatgarboneiddio ar lefel safle, gall y cyfleusterau hyn nid yn unig aros yn Sir y Fflint a Wrecsam am yr hirdymor ond hefyd ganolbwyntio eu buddsoddiad ar ddatblygu cyfleusterau, technegau a phrosesau gweithgynhyrchu uwch sy'n arwain y byd.

Nid yn unig y bydd y seilwaith hwn yn sicrhau y gellir cadw diwydiant yn y rhanbarth, ond bydd hefyd yn denu diwydiannau newydd i safleoedd tir llwyd sy'n wag ar hyn o bryd, gan ddarparu cynnig newydd ar gyfer buddsoddiad rhanbarthol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru gan fuddsoddwyr o'r DU a thramor. Bydd y cymorth cychwynnol hwn o £0.5m yn caniatáu i WWU fwrw ymlaen â'r prosiect drwy Gam 2.1 (barod ar gyfer FEED) ac yn rhoi'r hyder i WWU baratoi ar gyfer cynnig cyd-fuddsoddi ar gyfer cyflawni Cam 2.2 (FEED), tybir ar hyn o bryd y bydd hynny'n £13m arall, yn dibynnu ar ddatblygiad pellach polisi galluogi'r farchnad (yn enwedig Modelau Busnes Trafnidiaeth Hydrogen) gan lywodraeth y DU.

Yn ogystal â hyn, mae'n debygol y bydd safleoedd gweithgynhyrchu datblygedig a gefnogir gan Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, sy'n cyflogi tua 19,000 o bobl, yn gallu datgloi cyd-fuddsoddiad ychwanegol trwy gysylltiad â HyLine Gogledd (e.e. drwy dreialon newid tanwydd).

Fel partner cyflenwi craidd yng Nghlwstwr Datgarboneiddio Diwydiannol Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWID), mae WWU wedi dangos y bydd cyflenwi rhwydwaith trafnidiaeth hydrogen rhanbarthol fel HyLine Gogledd yn:

- Arbed hyd at 27m tunnell o allyriadau $CO_2$ cronnus erbyn 2058
- Cyfrannu at greu hyd at 6,000 o swyddi lleol
- Cynhyrchu £17b o werth economaidd
- Datgloi gwerth cymdeithasol o hyd at £3.3b

### 4.1.7. MAAS Spectrometry Limited

Mae MAAS Spectrometry Limited yn fusnes yn Wrecsam sydd wedi'i leoli ym Mharc Technoleg Wrecsam. Am 4 blynedd roedden nhw'n gwmni ymchwil a datblygu Deep Tech pur. Fis Mehefin diwethaf fe wnaethon nhw leoli yn Wrecsam a dechrau gweithredu gyda gweithwyr. Mae MAAS Spectrometry Limited yn creu offerynnau gwyddonol tarfol (*disruptive*) ac, mewn rhai achosion, unigryw (Sbectromedrau Màs Mewn-organig), dim ond dau gwmni arall sydd â'r gallu i gynhyrchu'r dechnoleg hon, y ddau yn Americanaidd. Fe wnaeth un ohonynt, Alan McCall, sefydlu a gwerthu i Ametek. Cenhadaeth MAAS Spectrometry Limited yw creu a datblygu'r dechnoleg hon fel Cwmni Cymreig. Ar ôl nifer o ddegawdau yn y dechnoleg hon, mae Alan McCall ac Andrew Burrows wedi cynhyrchu offeryn gan ddefnyddio'r holl wersi a ddysgwyd a'r profiad a gawsant dros ddegawdau. Maen nhw'n awr eisiau mynd â'r dechnoleg hon i faes arall o offeryniaeth nad yw'r gystadleuaeth yn ymwneud ag ef. Byddai hyn yn arwain at dechnoleg unigryw a wneir yng Nghymru yn unig. Yn ogystal, maent wedi ffurfio cysylltiadau â sefydliadau fel Prifysgol Wrecsam a llawer o gyflenwyr yr ydym yn bwriadu gweithio gyda nhw i weithgynhyrchu cymaint â phosib o'r dechnoleg yng Nghymru, gan felly gyfyng risgiau i'r gadwyn gyflenwi.

Nod y prosiect yw integreiddio ffynhonnell ïonau "Microwave Inductively Coupled Atmospheric Plasma" (MICAP) ar Sbectromedr Màs Aml-Gasglwr MAAS. Yn draddodiadol, mae gan y sbectromedrau màs hyn ffynhonnell ïon "Inductively Coupled Plasma" (ICP) sy'n defnyddio nwy Argon a Generadur RF pŵer uchel i gynhyrchu "fflam" o tua 6000-8000 gradd C sy'n ïoneiddio'r sampl. Mae'r ffynhonnell ion MICAP yn defnyddio nwy Nitrogen a generadur microdon pŵer uchel i gynhyrchu fflam o'r un tymheredd. Mantais gyntaf y ffynhonnell ïon hon yw costau rhedeg, mae cost Argon pur tua thair gwaith cost Nitrogen pur, byddai hyn ar ei ben ei hun yn arbed ~£50-£100K y flwyddyn mewn costau rhedeg i ddefnyddwyr. Yr ail fantais a'r un mwy cyffrous yw'r potensial i ddadansoddi elfennau sy'n draddodiadol yn dioddef o ymyraethau Argon yn y sbectromedr màs. Byddai elfennau fel Calsiwm neu Seleniwm er enghraifft sy'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd ar systemau celloedd taro drud iawn, cymhleth iawn, yn gallu cael eu dadansoddi'n hawdd, heb ymyrraeth, ar sbectromedr màs ffynhonnell MICAP. Meysydd allweddol eraill o ddylunio yw Electro Magnet wedi'i lamineiddio a fframwaith/mainc sy'n darparu 'shielding' RF a gorchuddion gwydr ffibr.

Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni gan Alan McCall, y Prif Swyddog Gweithredol. Rhagwelir y bydd y prosiect yn rhedeg am 12-15 mis, gyda thri mis arall wrth gefn os bydd angen. Mae'r prosiect hwn yn ceisio creu offeryn cenhedlaeth newydd nad yw'n bodoli yn dechnolegol yn

unrhyw le arall yn y byd. Mae wrth wraidd 'Deep Tech' ac felly trwy ddiffiniad mae ar frig arloesedd, gyda phwyslais cryf iawn ar Weithgynhyrchu Uwch mewn meysydd fel Opteg Ïonau, Peiriannu Manwl, Technoleg Faciwm a Thechnoleg Mowntio Arwyneb. Bydd y prosiect hwn yn cynhyrchu 'Gwybodaeth a dealltwriaeth Dechnegol ac yn darparu swyddi medrus iawn, gan gynnwys Gwyddonydd Datblygu MC ICPM a Pheiriannydd Datblygu/Profi a Gosod. Gobeithir hefyd y gallwn ddechrau hyfforddi a datblygu ein Technegwyr ein hunain i gynhyrchu offerynnau yn y dyfodol.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae'r prosiectau a nodir yn y papur hwn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol y cytunwyd arno. Mae pob un ohonynt yn gallu sicrhau'r adnodd a ddyrannwyd o fewn y rhaglen. Unwaith y cytunir ar lif arian manwl ar gyfer gwariant gyda phob prosiect, gellir diweddaru'r cyfalaf a'r dyraniadau refeniw yn-y-flwyddyn gyda diweddariadau i'r ADP ar gyfer Blwyddyn 3.

5.2. Disgwylir i'r rhaglenni Grant SME gyflawni'n agos at y dyraniadau ym Mlwyddyn 2 a bydd y cyllid a nodir yn y papur hwn yn talu'r costau disgwyliedig ym Mlwyddyn 3. Disgwylir i'r prosiect trawsnewid bysiau hawlio arian o Flwyddyn 3 ymlaen, ond os gellir sicrhau cyflawniad ym Mlwyddyn 2, yna gellir diweddaru'r dyraniadau yn ADP 3. Mae gan brosiect Porth Glannau Dyfrdwy ddyraniad ym Mlwyddyn 2, ond efallai y bydd rhan o hyn yn llithro i Flwyddyn 3. Bydd amseriad MAAS Spectrometry a HyLine Gogledd yn cael ei gadarnhau yn y Cytundebau Arian Grant, dyrennir arian iddynt ym Mlwyddyn 3 yr ADP.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r argymhellion yn cymeradwyo'r dyraniadau cyllid prosiect penodedig y Parth Buddsoddi ac, lle bo'n berthnasol, dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i ymrwymo i'r Cytundebau Cyllido Grant cysylltiedig yn dilyn yr ymgynghoriadau a nodwyd. Bydd cwblhau'r cytundebau hynny yn creu rhwymedigaethau cyllido rhwymol a dim ond ar ôl i'r amodau rheoli cymhorthdal perthnasol a sicrwydd achos busnes a nodir yn yr argymhellion gael eu cwblhau'n foddhaol. Nodir bod y penderfyniadau arfaethedig o fewn fframwaith Cynllun Cyflawni Blynyddol y Parth Buddsoddi cymeradwy, MOU a Fframwaith Cytundeb Rhyng-Awdurdod.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Crynodeb Gweithredol yr Achos Busnes Trawsnewid Bysiau |
| Atodiad 2: | Crynodeb Gweithredol Achos Busnes Porth Glannau Dyfrdwy |
| Atodiad 3: | Ffurflen Gais HyLine Gogledd |
| Atodiad 4: | Ffurflen Gais MAAS Spectrometry |

---

DOGFENNAU CEFNDIR *(ar gael ar gais oherwydd cyfrinachedd)*

1. Adroddiad Cyngor Sir y Fflint ynglŷn â: Grantiau SME
2. Adroddiad Cyngor Wrecsam ynglŷn â: Grantiau SME
3. Achos Busnes Llawn Trawsnewid Bysiau
4. Achos Busnes Llawn Porth Glannau Dyfrdwy

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Yn amodol ar gwblhau'r gofynion rheoli cymhorthdal a sicrwydd a nodwyd yn yr argymhellion yn foddhaol, a chwblhau'r Cytundebau Cyllido Grant trwy'r broses gymeradwyo dirprwyedig arfaethedig, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniadau a geisir."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniadau a geisiwyd ac mae'r dyraniadau a ddyfynnwyd ar gyfer y prosiectau unigol o fewn symiau cyllideb y Parth Buddsoddi a oedd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol a gyflwynwyd i'r is-bwyllgor hwn ym mis Gorffennaf."